



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Goleg Cambria
Grove Park Road
Wreccsam
LL11 7AA**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/02/2016

Cyd-destun

Mae Coleg Cambria, yng ngogledd-ddwyrain Cymru, yn un o golegau mwyaf y Deyrnas Unedig, gyda thros 6,500 o fyfyrwyr amser llawn a 15,000 o fyfyrwyr rhan-amser. Mae gan y coleg gysylltiadau rhyngwladol dros bedwar cyfandir. Sefydlwyd y coleg yn Awst 2013 yn sgil uno Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl.

Mae Coleg Cambria yn gwasanaethu ardaloedd tri awdurdod lleol: Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych, gyda phoblogaeth o bron 400,000 yn gyfan gwbl. Mae'r coleg yn gweithio mewn partneriaeth â thros 1,000 o gyflogwyr.

Y coleg yw'r trydydd mwyaf yng Nghymru o ran nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru yno. Yn 2013-2014, roedd 14,675 o ddysgwyr gan y coleg, gyda 36,984 o gofrestriadau. O'r dysgwyr hyn, roedd 6,520 yn dilyn cyrsiau amser llawn a 8,155 ar gyrsiau rhan-amser.

Mae 46% o ddysgwyr y coleg yn ddynion a 54% yn fenywod. Mae 76% o'r dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau amser llawn rhwng 16 a 18 oed. Mae 51% o ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau rhan-amser rhwng 25-49 oed.

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer canran yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn y 10% mwyaf difreintiedig o Gymru yn dangos 2.8% yn Sir y Fflint a 5.1% yn Wrecsam.

Cymeradwywyd ceisiadau 920 o ddysgwyr am y Lwfans Cynhaliath Addysg yn Wrecsam yn 2013-2014 a chymeradwywyd 924 yn Sir y Fflint. Cyfanswm nifer y ceisiadau a gymeradwywyd mewn colegau addysg bellach yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn honno oedd 19,483. Nid oedd 22 o'r rhai a ymadawodd yr ysgol ar ôl Blwyddyn 11 yn Wrecsam mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn 2014; 21 oedd y nifer yn Sir y Fflint, a chyfanswm Cymru gyfan oedd 1,040.

Crynodeb

Perfformiad presennol y darparwr	Rhagorol
Rhagolygon gwella'r darparwr	Rhagorol

Perfformiad presennol

Mae'r coleg yn rhagorol oherwydd:

- Mae'r cyfraddau llwyddiant ar gyfer cyrsiau sylwedd (y rhai sy'n cyfateb i 150 o oriau dysgu dan arweiniad, neu fwy na hynny) yn rhagorol ac yn gosod y coleg yn y chwarter uchaf ar gyfer yr holl golegau yng Nghymru
- Mae tua thri chwarter y meysydd dysgu yn y ddau chwarter uchaf o gymharu â'r meysydd dysgu mewn colegau eraill yng Nghymru
- Mae'r cyfraddau llwyddiant ar gyfer pob cwrs a chysiau sylwedd yn dangos tuedd at i fyny dros y tair blynedd diwethaf
- Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da mewn dosbarthiadau
- Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gosod eu targedau dysgu eu hunain ac yn gwella'u medrau llythrennedd yn effeithiol iawn
- Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio technoleg yn effeithiol iawn i gefnogi ac ymestyn eu dysgu yn y coleg
- Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel iawn yn y coleg
- Mae ymddygiad dysgwyr o gwmpas y coleg yn rhagorol

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r coleg yn rhagorol oherwydd:

- Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rhoi arweinyddiaeth gadarn, glir ac effeithiol i'r coleg
- Mae'r tîm arwain wedi sefydlu coleg newydd yn gyflym iawn, gydag un hunaniaeth, ethos a brand cydlynol
- Defnyddir cynllun strategol tair blynedd y coleg yn effeithiol i ysgogi gwelliant
- Mae staff ar bob lefel ar draws y coleg yn defnyddio'r dangosfwrdd electronig yn effeithiol iawn i gynllunio ar gyfer gwelliant
- Mae partneriaethau'r coleg yn helaeth ac yn ehangu gwaith y coleg

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud y cynnydd y mae ganddo'r gallu i'w wneud
- A2 Cyflymu a chynyddu'r her mewn addysgu
- A3 Sicrhau bod prosesau ansawdd yn canolbwyntio'n gyfartal ar gynnydd a safonau dysgwyr, yn ogystal ag ar ansawdd yr addysgu

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y coleg yn cynnwys camau gweithredu yn ei gynllun datblygu ansawdd, gan ddangos yn glir sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd o ran yr argymhellion hyn yn cael ei fonitro o dro i dro gan arolygydd cyswllt y coleg yn Estyn. Bydd Estyn yn gwahodd y coleg i baratoi astudiaethau achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a amlygwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

At ei gilydd, 84% yw cyfradd llwyddiant y coleg ar gyfer cyrsiau sylwedd (y rhai sy'n cyfateb i 150 o oriau dysgu dan arweiniad, neu fwy na hynny). Mae hyn bum pwynt canran uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 79%, ac mae'n gosod y coleg yn y chwarter uchaf o blith pob coleg yng Nghymru.

Mae pob maes sector pwnc sydd â nifer fawr o gofrestrïadau yn perfformio gerllaw neu uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol ar gyfer cwblhau cyrsiau sylwedd yn llwyddiannus. Mae tua thri chwarter yr holl feysydd sector pwnc yn y ddau chwarter uchaf o gymharu â meysydd sector pwnc colegau eraill yng Nghymru. Mae cyfraddau llwyddiant tua hanner y meysydd sector pwnc dros bum pwynt canran uwchlaw'r cymharyddion cenedlaethol. Mae trin gwallt a harddwch, peirianneg, lletygarwch ac arlwyyo, y celfyddydau perfformio, ac addysg a hyfforddiant yn perfformio ymhell uwchlaw'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Mae'r gyfradd cwblhau llwyddiannus ar gyfer cyrsiau sylwedd wedi dangos gwelliant cyson dros y tair blynedd diwethaf, o 77% yn 2011-2012 i 84% yn 2013-2014.

Cyfradd llwyddiant y coleg ar gyfer pob cwrs yn 2013-2014 yw 88%, sef tri phwynt canran uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol. Mae hyn yn gosod y coleg yn y chwarter uchaf o blith pob coleg yng Nghymru. Mae cwblhau llwyddiannus mewn lleiafrif o feysydd sector pwnc ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae cwblhad adeiladu a'r amgylchedd adeiledig yn llwyddiannus 10 pwynt canran islaw'r cymharydd cenedlaethol ac mae technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) bum pwynt canran islaw'r cymharydd cenedlaethol. Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyfradd llwyddiant y coleg ar gyfer pob cwrs wedi gwella dau bwynt canran, gydag ychydig o ostyngiad yn 2012-2013 adeg yr uno.

Mae data nas cyhoeddwyd y coleg ar gyfer 2014-2015 yn dangos arwydd cynnar bod tueddiadau ar draws bron pob un o'r mesurau a bron pob maes sector pwnc yn gwella.

Mae dysgwyr o ardaloedd mwyaf difreintiedig y tri awdurdod lleol, y rhai sydd wedi datgan anabled a dysgwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn cyflawni ar gyfradd sy'n gydradd â'u cymheiriaid, neu uwch, yn eu dysgu.

Dengys data gwerth ychwanegol y coleg fod dysgwyr ar gyrsiau Safon Uwch a chysiau BTEC, ar y cyfan, yn ennill eu cymwysterau yn unol â disgwyliadau sy'n seiliedig ar eu cyraeddiadau blaenorol. Bu gwelliant cyson yn y duedd yn y mesurau hyn dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae cyrsiau BTEC yn parhau islaw'r sgôr gyfartalog ac nid oes digon o ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau UG ac A2 yn cyflawni eu cymwysterau ar lefelau uwch na'r disgwyl.

Mae llawer o ddysgwyr ar draws y rhan fwyaf o feysydd dysgu yn gwneud cynnydd da mewn gwersi. Maent yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn ei arddangos yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn gwersi ymarferol yn datblygu eu medrau yn dda iawn. Er enghraifft, mae dysgwyr lletygarwch ac arlwyo yn dysgu medrau newydd ym maes paratoi bwyd ac yn ymarfer y medrau hyn yn amgylchedd strwythuredig cegin wasanaeth. Mae dysgwyr plastro yn dysgu technegau newydd ar gyfer llenwi bylchau ac atgyweirio. Fodd bynnag, mae ychydig ddysgwyr ym mhob maes dysgu yn gwneud cynnydd cyfyngedig mewn dosbarthiadau. Nid yw lleiafrif o ddysgwyr mwy abl yn gwneud y cynnydd y gallant ei gyflawni mewn dosbarthiadau.

Mae llawer o ddysgwyr yn adalw dysgu blaenorol yn dda ac yn cymhwysu'u medrau mewn cyd-destunau newydd yn effeithiol. Mae llawer o ddysgwyr yn cwblhau eu haseiniadau gwaith cwrs mewn pryd ac ar y trywydd cywir i gyflawni eu cymwysterau.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cymryd rhan yn dda iawn mewn gosod eu targedau eu hunain ar gyfer dysgu, medrau a chynnydd personol. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu medrau dysgu, bod yn berchen ar eu dysgu a sicrhau bod eu dysgu yn canolbwyntio ar y meysydd y mae angen iddynt eu gwella. Fodd bynnag, mae ychydig o'r targedau hyn yn rhy gyffredinol ac nid yw dysgwyr yn gallu olrhain a monitro eu cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn hawdd nac, yn achos ychydig ddysgwyr, cyflawni'r canlyniad.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn siarad yn glir ac yn hyderus. Mynegant eu syniadau'n dda a chefnogant eu barn gan roi esboniadau trylwyr. Esboniant brosesau gyda strwythur clir a phriodol a defnyddiant amrywiaeth o eirfa sy'n briodol i'r sefyllfa ac i'w gallu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn dda mewn rhaglenni datblygu medrau (SkillsBoost) a dosbarthiadau TGAU. Yn benodol, maent yn gwella medrau llythrennedd technegol sillafu, atalnodi a gramadeg, ac yn ymarfer y medrau hyn yn eu gwaith ysgrifenedig a'u haseiniadau. Mae llawer o ddysgwyr yn dangos cymhwysedd cadarn mewn cyfrifiadau rhifyddol ac yn ymarfer medrau presennol mewn amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd. Er enghraifft, mae dysgwyr peirianneg yn defnyddio amrywiaeth o fesuriadau'n gywir i gynhyrchu rhannau peiriannau sy'n bodloni manylion diwydiant.

Mae bron pob dysgwr sy'n siarad Cymraeg yn defnyddio'i fedrau Cymraeg yn gyson o gwmpas campws Lllysfasi. Mae ychydig ddysgwyr yng nghampws Iâl yn dewis dilyn cymhwyster Bagloriaeth Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ychydig ddysgwyr ar draws holl gampysau'r coleg yn cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae datblygu ac ymarfer y Gymraeg, a'r defnydd arni, gan ddysgwyr yn amrywio rhwng adrannau pwnc a champysau'r coleg.

Lles: Rhagorol

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn y coleg yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod gyda phwy i siarad os bydd ganddynt bryderon. Mae mwyafrif y dysgwyr yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o sut i ddatblygu a chynnal ffordd iach o fyw.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu'r coleg yn dda. Cododd presenoldeb y llynedd i bron 90% ac nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng presenoldeb grwpiau o ddysgwyr.

Mae ymddygiad bron pob un o'r dysgwyr o gwmpas y coleg yn rhagorol ac mae ymddygiad llawer o ddysgwyr mewn gwersi yn dda iawn. Ar bob safle, mae awyrgylch digynnwrf a phwrpasol. Mae agweddau'r rhan fwyaf o ddysgwyr at eu gwaith yn gadarnhaol, gyda symbyliad da. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr â'r coleg, a chefnogant ei gilydd yn dda iawn.

Mae dysgwyr yn cymryd rhan yn effeithiol iawn mewn gwneud penderfyniadau yn y coleg trwy holiaduron rheolaidd, grwpiau ffocws, cynghorau campws a senedd y myfyrwyr. Maent yn hyderus bod uwch arweinwyr yn gwrando arnynt, yn ystyried eu barn ac yn ymateb yn briodol. Mae cynrychiolwyr cyrsiau yn rhoi adborth defnyddiol iawn i diwtoriaid ar agweddau ar y ddarpariaeth a gweithiant yn adeiladol gyda staff y coleg i wella profiadau dysgu pob dysgwr.

Gwna bron pob un o'r dysgwyr gyfraniadau eithriadol at fywyd y coleg a'r gymuned trwy waith gwirfoddol a gweithgareddau codi arian. Dysgwyr sy'n cychwyn llawer o'r gweithgareddau hyn ac maent yn ychwanegol at y rhai sydd wedi'u cynllunio gan athrawon i fodloni gofynion cymwysterau. Er enghraifft, mae dysgwyr lefel mynediad yn gwneud cynhyrchion crefft i'w gwerthu yn y marchnadoedd Nadolig ac mae dysgwyr TGCh Safon Uwch yn gwirfoddoli mewn canolfan adsefydlu alcohol a chyffuriau yn Wrecsam.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn dewis helaeth o weithgareddau i ddatblygu eu medrau cyflogadwyedd a menter. Mae dysgwyr wedi cael llwyddiant mawr yn cynrychioli eu coleg mewn cystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r cynnydd a wna dysgwyr wrth ddatblygu eu medrau entrepreneuriaid a'u medrau cyflogadwyedd yn arwain y sector.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Profiadau dysgu: Rhagorol

Mae gan y coleg ystod gynhwysfawr o ddarpariaeth sy'n bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn dda. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau galwedigaethol sy'n cael eu gwella gan gysylltiadau cadarn ag amrywiaeth eang o gyflogwyr.

Mae'r coleg yn gwneud defnydd da o wybodaeth fanwl, wedi'i dadansoddi'n dda, am y farchnad lafur i amlygu anghenion medrau cyflogwyr, gan gynnwys amlygu bylchau posibl. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys darpariaeth sydd wedi'i theilwra i anghenion cyflogwyr ym meysydd gweithgynhyrchu, adeiladu a gofal. Mae'r rhaglenni hyn yn bodloni anghenion penodol cyflogwyr yn effeithiol.

At ei gilydd, mae'r coleg wedi addasu a symleiddio'i gwricwlwm yn dda i fodloni anghenion dysgwyr ar bob lefel. Er enghraifft, mae dysgwyr ar lefel mynediad yn cael eu cofrestru i gychwyn ar raglen hyfforddeiaeth sy'n cynnwys profiad gwaith gwirfoddol, medrau sylfaenol a datblygiad personol. Mae'r rhaglen hon yn bodloni anghenion dysgwyr na fyddent yn gallu manteisio ar ddarpariaeth coleg fel arfer.

Caiff llwybrau dilyniant mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith eu cynllunio'n dda, gan alluogi dysgwyr i symud ymlaen i gymwysterau lefel uwch ym mron pob maes.

Mae cysylltiadau da iawn â chyflogwyr yn y rhan fwyaf o feysydd, sy'n arwain at brofiad gwaith perthnasol, o ansawdd uchel, i ddysgwyr mewn sawl maes. Er enghraifft, mewn lletygarwch ac arlwyo, mae dysgwyr yn elwa o brofiadau diwydiannol yn Ewrop a digwyddiadau chwaraeon mawreddog.

Mae gan y coleg strategaeth ragorol ac arfer hynod effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar gyfer dysgwyr ar y lefel fwyaf priodol. Mae'r coleg yn defnyddio'i ystod helaeth o dechnoleg mewn modd arloesol i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'u medrau TGCh yn eithriadol o dda mewn dosbarthiadau galwedigaethol ac academaidd. Mae'r cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu'r medrau TGCh lefel uchel hyn wedi'u gwreiddio ym mhob agwedd ar y cwricwlwm.

Nid yw strategaeth y coleg ar gyfer cipio data ar gyrchfannau dysgwyr wedi'i datblygu'n ddigonol ac, yn ddiweddar, mae'r coleg wedi gwella'i systemau ar gyfer olrhain cyrchfannau. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i weld effaith y datblygiad hwn.

Mae darpariaeth y coleg ar gyfer y Gymraeg ar draws pob campws yn bodloni anghenion llawer o ddysgwyr yn dda. Yn Llysfasi, caiff ei hyrwyddo'n hynod o effeithiol.

Caiff dysgwyr gyfleoedd da i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang trwy Fagloriaeth Cymru a'r rhaglen diwtorialau.

Addysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn arddangos gwybodaeth dechnegol a phynciol dda. Mae llawer o'r athrawon yn cynllunio sesiynau theori a sesiynau ymarferol yn dda ac yn gosod disgwyliadau clir i'r dysgwyr.

Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu a dysgu sy'n ysgogi ac yn herio dysgwyr yn dda. Darparant ystod helaeth o adnoddau sy'n cynnal diddordeb dysgwyr ac yn datblygu'u medrau meddwl yn systematig. Mewn sesiynau galwedigaethol ymarferol, maent yn herio dysgwyr yn dda i ddatblygu medrau sy'n cyrraedd safonau diwydiant ac yn eu paratoi'n dda at waith yn y dyfodol.

Yn yr ychydig ddosbarthiadau lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae'r wers yn rhy araf ac nid yw athrawon yn herio dysgwyr yn ddigon effeithiol i wneud y cynnydd y mae ganddynt y gallu i'w wneud. Yn y dosbarthiadau hyn, nid yw dysgwyr yn ymroi yn llwyr i'w dysgu.

Mae bron pob un o'r athrawon yn cynllunio cynlluniau dysgu sy'n amlygu'n glir gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd. Er enghraifft, ar lefel 3, mae athrawon chwaraeon yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr ymarfer eu medrau rhifedd trwy gofnodi digwyddiadau a chanlyniadau mewn digwyddiadau chwaraeon ysgolion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon ar draws pynciau yn

ymestyn y cyfleoedd hyn i ganiatáu i ddysgwyr ddatblygu medrau rhifedd uwch a medrau llythrennedd estynedig.

Mae bron pob un o'r athrawon a'r cynorthwyr cymorth dysgu yn creu amgylchedd o ymddiriedaeth a pharch tuag at ei gilydd a dysgwyr. Mae perthynas dda rhwng athrawon a dysgwyr a chaiff dysgwyr eu hannog i ofyn cwestiynau i ymestyn eu gwybodaeth. Mae athrawon yn defnyddio amgylchedd dysgu digidol y coleg yn effeithiol iawn i rannu gwybodaeth â dysgwyr.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer asesu ar gyfer dysgu. Defnyddiant ystod addas o gwestiynau'n effeithiol i asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr. Rhoddant adborth llafar i roi cyngor i ddysgwyr ar eu cynnydd a sut i wella'u gwaith ymhellach. Fodd bynnag, mewn ambell achos, mae cyfleoedd i ddefnyddio cwestiynu estynedig i ennyn atebion ehangach a gwella medrau meddwl dysgwyr yn cael eu colli.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith dysgwyr yn brydlon ac yn rhoi adborth defnyddiol iddynt ar y pethau mae angen iddynt ei wneud i ddatblygu eu gwaith ymhellach. Mae dysgwyr yn defnyddio'r adborth hwn yn dda i osod eu targedau eu hunain ar gyfer gwella ac mae athrawon yn adolygu'r rhain yn briodol yn ystod tiwtorialau unigol.

Mae'r coleg yn rhoi adroddiadau cynnydd ffurfiol i ddysgwyr, rhieni a chyflogwyr ar adegau addas yn ystod blwyddyn y coleg. Mae'n defnyddio ystod helaeth o opsiynau cyfathrebu, gan gynnwys opsiynau ysgrifenedig, wyneb yn wyneb a thechnolegau digidol yn effeithiol iawn i fodloni anghenion pawb.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae gan y coleg amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith sy'n canolbwyntio'n dda ar iechyd a lles dysgwyr. Mae'r coleg yn cynnig ystod briodol o weithgareddau cyfoethogi, gan gynnwys chwaraeon a diwylliant, ac mae'r rhain yn annog dysgwyr i ddatblygu'u medrau cymdeithasol.

Mae ystod eang o ddeunyddiau cwricwlaidd ar-lein ar gael i'r holl ddysgwyr. Ar y cyfan, mae dysgwyr yn edrych ar y rhain yn ystod sesiynau tiwtorial a rhoddant wybodaeth bwysig i ddysgwyr am amrywiaeth o faterion, gan gynnwys sut i gadw'n ddiogel a bwyta ac yfed yn iach. Yn ogystal, rhoddant gyngor gwerthfawr i ddysgwyr pan fyddant yn ymuno â'r coleg, gan gynnwys sut i ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau'r coleg, adolygiadau cychwynnol o gyrsiau a sgrinio cychwynnol ar gyfer unrhyw anghenion sydd ganddynt. Mae'r mesurau hyn yn sicrhau'n effeithiol bod dysgwyr wedi dewis y cwrs cywir a bod eu hanghenion yn cael eu nodi'n glir.

Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o ddeunyddiau a chyfleoedd priodol i ddarparu ddysgwyr a dysgwyr presennol wneud dewisiadau gwybodus. Mae gwybodaeth am gyrsiau a ddarperir ar wefan y coleg yn glir ac yn gyson. Mae'r wefan yn hawdd ei defnyddio ac mae'n darparu gwybodaeth gynhwysfawr am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael.

Mae'r pecyn gofal, cymorth ac arweiniad cyfan y mae'r coleg yn ei ddarparu yn arwain y sector.

Mae'r adran cymorth i fyfyrwyr yn cynnig gwasanaeth arbennig o werthfawr i'r holl ddysgwyr yn y coleg. Ar gampws Glannau Dyfrdwy, mae lleoliad amlwg a gweladwy gan yr adran yn y prif gyntedd. Ar draws pob campws, mae'r adran yn cynnig amrywiaeth ddefnyddiol o wasanaethau, fel nodi a chefnogi dysgwyr agored i niwed, gwasanaeth dulliau atal cenhedlu, cyngor ariannol a chyngor ar yrfaeod. Yn ddiweddar, symleiddiwyd y broses dderbyn i ddysgwyr prif ffrwd sy'n dymuno cofrestru ar gyrsiau amser llawn. Erbyn hyn, caiff cyfweiliadau dysgwyr eu cynnal gan yr adran gwasanaethau myfyrwyr. O ganlyniad, mae ffocws gwell ar gysylltu nodau gyrfaol dysgwyr â'r cyrsiau y dymunant eu dilyn a'u cymwysterau adeg derbyn.

Mae systemau effeithiol iawn gan y coleg i nodi anghenion ehangach dysgwyr, gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, gall dysgwyr fanteisio ar ystod eang o gymorth sy'n cyfateb yn dda iawn i'w hanghenion. Mae staff cymorth dysgu yn gymwys iawn ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr. Caiff cymorth arbenigol ei ddarparu'n gyson ar draws pob campws. Caiff tiwtoriaid cymorth astudio eu neilltuo'n effeithiol i feysydd galwedigaethol. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn dod i adnabod y dysgwyr yn dda ac mae'n cynnig parhad cadarn yn y cymorth iddynt.

Mae'r coleg yn cydweithio'n dda iawn ag ystod o asiantaethau allanol perthnasol. Mae'n cynorthwyo dysgwyr yn ystod cyfnodau o argyfwng personol yn effeithiol iawn. Mae trefniadau'r coleg ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol

Mewn cyfnod byr iawn, mae'r coleg newydd wedi sefydlu ethos a diwylliant eithriadol o gadarnhaol sydd i'w gweld yn amlwg ar draws pob campws. Mae'r diwylliant cynhwysol a goddefgar hwn yn galluogi dysgwyr a staff i deimlo'n hyderus a diogel.

Mewn ymgynghoriad â dysgwyr, staff a llywodraethwyr, mae arweinwyr y coleg wedi datblygu cyfres o 10 ymddygiad. Mae'r rhain yn rhoi arweiniad strategol clir ac yn sylfaen i berthnasoedd a phrosesau penderfynu'r coleg. Defnyddir yr ymddygiadau yn arbennig o dda i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y coleg a herio stereoteipiau. O ganlyniad, mae dysgwyr, ni waeth beth yw eu hethnigrwydd neu gefndir, yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth da yn amgylchedd y coleg.

Defnyddiodd y coleg ymchwil helaeth i arfer orau yng Nghymru a thu hwnt i'w alluogi i ddatblygu ei amgylcheddau dysgu newydd a'r amgylcheddau presennol. Defnyddiodd arweinwyr y coleg y canfyddiadau'n dda iawn i greu amgylchedd ysgogol ac ysbrydoledig i'r holl ddysgwyr a staff. Caiff bron pob adeilad ei gynnal a chadw i safon eithriadol. Gall dysgwyr fanteisio ar adnoddau ac offer dysgu o ansawdd uchel, sy'n aml yn cyrraedd safonau diwydiant ac yn rhagori arnynt.

Mae amgylchedd dysgu digidol y coleg yn galluogi dysgwyr a staff i fanteisio ar ystod eang o offer a rhaglenni digidol. Mae dysgwyr a staff yn defnyddio'r cyfleusterau hyn yn dda iawn i gynyddu eu medrau ymhellach, i gydweithio ac i fanteisio ar bob

agwedd ar dechnoleg ddigidol. Mae'r amgylchedd hwn yn cynnig cyfleoedd rhagorol i ddefnyddio dysgu cyfunol a hyblygrwydd o ran defnyddio adnoddau ac ystafelloedd dosbarth ar draws pob campws.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rhoi arweinyddiaeth gadarn, glir ac effeithiol i'r coleg. Ers ffurfio Coleg Cambria yn Awst 2013, maent wedi gwneud cynnydd cryf iawn yn sefydlu un hunaniaeth, ethos a brand cydlynol ar gyfer y coleg newydd.

Mae gweledigaeth strategol tair blynedd y coleg yn amlinellu 15 targed a blaenoriaeth sy'n treiddio'n effeithiol trwy brosesau cynllunio a gwella ansawdd y coleg. Mae hyn yn caniatáu i'r coleg fesur ei gynnydd yn effeithiol a datblygu canlyniadau allweddol syml. Mae'r coleg wedi nodi 10 ymddygiad sy'n cyfrannu'n dda at ethos y coleg ac yn llunio rhan o broses werthuso'r staff. Mae arweinwyr ar bob lefel yn arddangos yr ymddygiadau hyn yn dda.

Mae'r pennaeth a'r uwch reolwyr yn llunio tîm effeithiol, mae eu meysydd cyfrifoldeb wedi'u diffinio'n dda a chymerant rolau arwain gweithgar ac effeithiol ar draws y sefydliad. Mae aelodau'r uwch dîm arwain yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda. Maent wedi gweithio'n gyflym ac yn drefnus i sefydlu ethos a diwylliant y coleg newydd ac mae ganddynt ffocws clir ar wella deilliannau i ddysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddirprwy gyfarwyddwyr meysydd dysgu yn adnabod eu meysydd yn dda ac yn cyflawni eu rôl yn effeithiol. Caiff rheolwyr ar bob lefel eu dwyn i gyfrif yn drylwyr gan uwch arweinwyr a'r corff llywodraethol.

Mae'r coleg wedi datblygu strategaeth gyfathrebu glir sy'n caniatáu i'r coleg gyfathrebu'n effeithiol iawn. Fe'i defnyddir yn dda gan uwch arweinwyr, rheolwr canol, tiwtoriaid a dysgwyr i gadw mewn cysylltiad, trosglwyddo gwybodaeth a rhannu arfer dda. Yn benodol, mae defnydd cadarn iawn ar gyfryngau electronig a chymunedau ar-lein, a chânt eu defnyddio'n dda. Er enghraifft, mae'r pennaeth yn cyfleu diweddariadau wythnosol i'r holl staff trwy fewnwyd y staff, mae athrawon yn rhannu deunyddiau gwersi'n effeithiol gyda dysgwyr trwy ystafelloedd dosbarth rhyngweithiol, ac mae athrawon a staff cymorth wedi sefydlu cymunedau ar-lein, gan ddefnyddio'r rhain i gyfnewid syniadau a gwybodaeth a rhannu myfyrdodau ar eu harfer eu hunain.

Mae gan y coleg fwrdd llywodraethol cadarn â ffocws clir ar godi safonau i ddysgwyr. Mae'r bwrdd wedi gwneud cyfraniad sylweddol at greu'r coleg newydd o'r colegau blaenorol. Mae aelodaeth y bwrdd yn cynrychioli amrediad eang o arbenigedd ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o blith y cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu gan y coleg. Mae cadeirydd y bwrdd yn cynnal gwerthusiadau blynyddol gydag aelodau'r bwrdd i nodi eu cryfderau, eu meysydd i'w gwella a'u hanghenion datblygu. O ganlyniad, mae'r bwrdd yn defnyddio medrau ei aelodau yn dda iawn. Mae llywodraethwyr yn dwyn arweinwyr y coleg i gyfrif yn dda iawn. Yn benodol, mae llywodraethwyr yn chwarae rhan flaenllaw yn craffu ar berfformiad cyrsiau a chyfrannu at brosesau sicrhau ansawdd a hunanasesu'r coleg.

Gwna dysgwyr gyfraniad cadarn at lywodraethu trwy ddysgwyr-lywodraethwyr a chynghorau campws rheolaidd. Mae cynghorau campws yn llunio adroddiadau defnyddiol sy'n bwydo i bwyllgorau'r prif gorff llywodraethol ac yn arwain at newidiadau buddiol i arferion y coleg.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol wedi rhoi'r coleg mewn sefyllfa dda i ymateb i ddatblygiadau strategol rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys canolfan chweched dosbarth newydd ar gampws Glannau Dyfrdwy, cydweithio â Phrifysgol Abertawe ym maes peirianeg awyrofod a datblygiadau seilwaith rhanbarthol eraill.

Gwella ansawdd: Rhagorol

Mae prosesau effeithiol iawn ar waith gan y coleg i fonitro a gwella ansawdd ei ddarpariaeth. Mae'n dangos gwelliant cyson yn ansawdd profiad y dysgwr yn glir a thuedd barhaus ar i fyny mewn deiliannau, mewn cyfnod o newid sylweddol.

Mae systemau effeithiol iawn ar waith gan y coleg i gasglu barn dysgwyr a blaenoriaethu camau gweithredu. Mae hyn yn cynnwys system bum haen ar gyfer gwrando ar ddysgwyr. Mae'r coleg yn defnyddio gwybodaeth gan ddysgwyr yn effeithiol iawn i lywio cynllunio ar gyfer gwella.

Gwna staff ar draws y coleg ddefnydd rhagorol o ddata sy'n dod o amrywiaeth o ffynonellau i adolygu eu perfformiad yn effeithiol yn ôl meincnodau cenedlaethol a thargedau'r coleg. Mae'r coleg yn defnyddio system ddangosfwrdd gynhwysfawr yn dda iawn i gyflwyno data ar berfformiad ar wahanol lefelau mewn ffordd glir a chynhwysfawr, sy'n hwylus i'r defnyddiwr. Mae hon yn cynnig un pwynt i staff fynd at amrywiaeth eang o ddata'r coleg wedi'i addasu'n bersonol i ddefnyddwyr unigol. O ganlyniad, mae gan yr holl staff ddealltwriaeth glir iawn o sut maent yn cyfrannu at nodau strategol y coleg.

At ei gilydd, mae gan arweinwyr a rheolwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd i'w gwella ar draws y coleg. Mae proses hunanasesu gadarn ar waith sy'n cael ei llywio gan adborth gan staff a dysgwyr. Mae deilliannau hunanasesu yn destun proses ddilysu drylwyr y mae aelod o'r corff llywodraethol yn bresennol ynddi. Fodd bynnag, nid yw hunanasesu bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar gynnydd a chyflawniad dysgwyr o fewn gwersi. Yn ogystal, nid oedd mwyafrif adrannau'r ddogfen hunanasesu a ddarparwyd ar gyfer yr arolygiad yn adlewyrchu'r coleg yn hollol gywir.

Mae cynlluniau gweithredu meysydd pwnc yn cyfuno'n dda mewn cynllun gwella ar gyfer y coleg cyfan, sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd a'i adolygu gan y corff llywodraethol. Mae cyrsiau nad ydynt yn cyflawni yn ôl disgwyliadau'r coleg yn destun dadansoddiad manwl a fforensig fel y gellir nodi problemau allweddol.

Mae data sy'n cael ei adrodd i'r corff llywodraethol yn gynhwysfawr ac yn dryloyw ac yn defnyddio data cymaryddion cenedlaethol yn dda i alluogi cydbwysedd addas o gymorth a her. Mae'r coleg a'r corff llywodraethol yn herio'u hunain yn dda i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel mewn diwylliant o wella'n barhaus.

Mae proses ansawdd y coleg yn integreiddio'n dda â'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae rheolwyr yn cynnal adolygiadau rheolaidd gyda'u staff ac mae gwybodaeth o systemau ansawdd y coleg yn ategu'r rhain, gan ysgogi gwella ansawdd. Mae gan staff ddealltwriaeth glir o'r mesurau perfformiad a ddefnyddir i'w dwyn i gyfrif.

Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

Mae gan y coleg bartneriaethau strategol rhagorol ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol a diwydiannol, sy'n ymestyn y cwricwlwm a gynigir i ddysgwyr.

Mae'r coleg yn cymryd rhan weithgar mewn ystod eang o grwpiau strategol sy'n annog arweinwyr a rheolwyr i edrych tuag allan wrth gymharu perfformiad â pherfformiad darparwyr eraill ac wrth geisio arloesedd. Mae hyn yn galluogi'r coleg i ymgymryd â rôl ganolog yn cefnogi diwydiant a masnach yn yr ardal a bod yn ymatebol i'r anghenion sy'n dod i'r amlwg yn yr economi. Mae uwch reolwyr yn adolygu ac yn arfarnu cyfranogiad staff yn flynyddol i sicrhau bod y partneriaethau a gefnogir gan y coleg o fudd i ddysgwyr a'r sefydliad.

Mae'r Pennaeth yn cadeirio Bwrdd Parth Menter Glannau Dyfrdwy, y mae'r uwch ddiwydianwyr o gwmnïau amlwladol sy'n aelodau o'r Bwrdd yn cefnogi twf y sector gweithgynhyrchu. Mae hyn yn sicrhau bod y coleg mewn sefyllfa ragorol i fod yn ymatebol i anghenion diwydiant. Mae'r coleg wedi dechrau gweithio gyda Chynghrair Dyfrdwy Mersi i fapio cyfleoedd dilyniant a bylchau medrau ar draws ardal Gorllewin Swydd Gaer, Cilgwri a gogledd-ddwyrain Cymru.

Mae cysylltiadau hynod effeithiol y coleg ag Airbus wedi cyfoethogi cyfleoedd dysgu i ddysgwyr a staff y coleg. Mae buddsoddiad y coleg yn y bartneriaeth hon yn dangos ei ymrwymiad hirdymor i gefnogi diwydiant yn dda. I ddarparu cymorth o'r ansawdd uchaf ac i ddatblygu cyfleoedd dilyniant ymhellach i ddysgwyr, mae wedi datblygu partneriaeth â Phrifysgol Abertawe sydd wedi arwain at adeiladu canolfan weithgynhyrchu newydd ar y campws.

Mae'r Pennaeth yn aelod o fwrdd Landex (Land based Colleges Aspiring for Excellence). Mae hyn wedi galluogi staff astudiaethau tir i fanteisio ar hyfforddiant o ansawdd uchel i wella ansawdd eu medrau haddysgu a'u medrau galwedigaethol.

I ymateb i'r adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o ddysgu a ddarperir gan golegau addysg bellach a pherthnasedd y ddarpariaeth honno i gefnogi busnesau fferm yng Nghymru, mae partneriaethau da â cholegau astudiaethau tir eraill wedi arwain at sefydlu rôl strategol i gampws a fferm Lllysfasi.

Mae perthynas ragorol y coleg ag awdurdodau lleol wedi galluogi iddo sicrhau grant i adnewyddu eiddo ar gampws lâl, i'w ddefnyddio fel Canolfan Medrau'r Gymraeg yn y Gweithle.

Mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint, mae'r coleg wedi gweithio'n dda i ennill ymddiriedaeth a chytundeb ysgolion lleol fel y gall canolfan chweched dosbarth newydd gael ei hadeiladu ar Gampws Glannau Dyfrdwy.

Rheoli adnoddau: Rhagorol

Mae'r coleg yn rheoli ei adnoddau'n dda iawn. Mae cynllunio ariannol craff, gyda chynllunio wrth gefn da. Mae'n sicrhau adnoddau o ansawdd da iawn i ddysgwyr, ac yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu cyllid sy'n gwella addysgu a dysgu. Mae strategaeth ariannol glir ar waith gyda thargedau a dangosyddion perfformiad uchelgeisiol, y mae arweinwyr yn eu rheoli'n dda. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar berfformiad ariannol i lywodraethwyr.

Mae rhaglen fuddsoddi feiddgar y coleg, sy'n cael ei rheoli'n dda, yn canolbwyntio'n gadarn ar wella cyfleusterau. Mae buddsoddiad, wedi'i ariannu o gronfeydd wrth gefn y coleg, wedi adfywio Campws Llaneurgain a chreu amgylchedd dysgu ysbrydoledig yn Llysfasi i ddysgwyr amaethyddiaeth, ar fferm fodern, hynod ddatblygedig. Mae'r coleg yn defnyddio'r stoc adeiladau presennol yn dda, gan fuddsoddi mewn moderneiddio a gwella adeiladau, i wella profiad y dysgwr. Mae buddsoddiad y coleg mewn TGCh wedi arwain at ddatblygiadau arloesol yn y ffordd y mae dysgwyr yn cael at ddeunyddiau dysgu o ansawdd uchel ac yn eu rhannu, ac yn rheoli eu dysgu eu hunain.

Defnyddia'r coleg gyllid partneriaethau a chyllid allanol yn dda iawn ar gyfer prosiectau fel y ganolfan chweched dosbarth.

Mae cyllidebau yn cael eu dirprwyo i reolwyr adrannau ac maent yn eu rheoli'n dda. Yn ogystal, gall staff wneud cais i gronfa arloesi'r coleg i allu darparu offer arbenigol i wella profiadau dysgwyr. Mae hyn wedi'u galluogi nhw a'u dysgwyr i elwa o'r offer diweddaraf oll. Er enghraifft, mae dysgwyr cyrsiau cerbydau modur wedi cael offer diagnostig modern, ac mae dysgwyr amaethyddiaeth wedi gwella'u dadansoddiadau o gynnyrch llaeth trwy brynu coleri cil-gnoi diwifr ar gyfer gwartheg.

Mae systemau gwerthuso, rheoli perfformiad a gwella ansawdd yn llywio'r cynlluniau ar gyfer datblygiad staff yn dda. Mae ymrwymiad cadarn gan y coleg i ddatblygu staff; yn ddiweddar, fe wnaeth ddyblu cyfran ei gyllideb sydd wedi'i neilltuo i ddatblygu staff. Mae'n talu sylw da i ddatblygu medrau addysgu staff a'u defnydd ar TGCh i ategu dysgu, ac mae'n rhoi cyfleoedd da iawn i staff ddiweddarau eu harbenigedd galwedigaethol hefyd. Mae'n arfarnu rhaglenni hyfforddi yn dda. Gall rheolwyr fanteisio'n dda ar hyfforddiant i ddatblygu eu medrau rheoli ac arwain.

Adroddiadau Maes Dysgu

Llythrennedd

Cyd-destun y maes dysgu

Caiff llythrennedd ei addysgu yn y coleg trwy gymorth i ddysgwyr, dosbarthiadau Sgiliau Hanfodol Cymru, dosbarthiadau Bagloriaeth Cymru, dosbarthiadau TGAU a thrwy Addysg Sylfaenol Oedolion. Yn ystod yr arolygiad hwn, ni wnaethom arolygu Addysg Sylfaenol Oedolion fel rhan o'r maes dysgu hwn.

Mae'r coleg yn defnyddio adnodd asesu cychwynnol a diagnostig safonol i nodi anghenion medrau dysgwyr. Mae deilliannau asesu cychwynnol 2014-2015 yn rhoi'r canlyniadau llythrennedd canlynol:

0.22% o ddysgwyr ar lefel cyn-mynediad

2.14% o ddysgwyr ar lefel mynediad 1

10.97% o ddysgwyr ar lefel mynediad 2

32.68% o ddysgwyr ar lefel mynediad 3

20.78% o ddysgwyr ar lefel 1

33.21% o ddysgwyr ar lefel 2

Argymhellion ar gyfer y maes dysgu

A1 Sicrhau bod dysgwyr ar bob lefel yn datblygu eu gwaith ysgrifenedig ar gyfer amrywiaeth eang o ddibenion perthnasol, yn enwedig mewn cyd-destunau galwedigaethol

A2 Sicrhau bod llwybr dilyniant i raglenni ailsefyll TGAU Saesneg wedi'i gynllunio ar gyfer pob dysgwr

A3 Gwella cysondeb y ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd mewn cyd-destun mewn ychydig feysydd fel ei bod yn cyfateb i'r ddarpariaeth orau

Prif Ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Barn: Da

Yn 2013-2014, roedd cyfraddau llwyddiant ym maes cyfathrebu Sgiliau Hanfodol Cymru ymhell uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol ac yn dangos tuedd o wella dros dair blynedd. Mae hyn yn gosod y maes dysgu yn y chwarterl uchaf o gymharu â cholegau eraill yng Nghymru.

Caiff lefelau llythrennedd bron pob dysgwr eu hasesu adeg mynediad ac mae defnyddwyr yn defnyddio'u deilliannau asesu i osod targedau ar sail eu hasesiad cychwynol. Mae bron pob un ohonynt yn gyfarwydd iawn â'u targedau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn adolygu eu targedau'n effeithiol ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu cynnydd. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cyflym o ran gwella'u medrau llythrennedd. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol mewn nifer bach iawn o feysydd dysgu yn gyfarwydd â'u targedau, na'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Ym mron pob gwrs ar fedrau, mae dysgwyr yn ymarfer medrau llythrennedd yn effeithiol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu medrau newydd yn dda. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymarfer eu medrau mewn ffyrdd buddiol ar draws eu meysydd astudio.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn siarad yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Maent yn addasu eu negeseuon yn dda fel eu bod yn addas i'r gynulleidfa, ac yn esbonio eu meddyliau a'u rhesymu yn rhesymegol. Wrth siarad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio geirfa sy'n benodol i bwnc yn gymwys. Maent yn adalw digwyddiadau'n dda ac yn adrodd profiadau'n glir, mewn trefn, gyda thôn a goslef briodol. Mae llawer ohonynt yn gweithio'n dda mewn grwpiau i drafod syniadau a dod i gytundeb.

Yn y meysydd dysgu gorau, mae dysgwyr yn arddangos medrau llythrennedd da iawn, gan gynnwys gwrandio gweithredol da iawn, a medrau cyfathrebu pwysig wrth ddelio â chwsmeriaid, er enghraifft mewn Trin Gwallt a Harddwch.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn darllen yn rhugl ar lefel sy'n briodol i'w gallu. Mae llawer ohonynt yn gallu sganio testunau'n effeithiol i ddethol gwybodaeth. Dangosant ddealltwriaeth dda o'r testunau a ddarllenant.

O ystyried eu manau cychwyn, mae llawer o ddysgwyr yn ysgrifennu testunau wedi'u saernio'n dda ar gyfer amrywiaeth briodol o ddibenion ac mae ganddynt ymdeimlad sicr o gynulleidfa. Mae ychydig o ddysgwyr yn gwneud camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg cyson yn eu hysgrifennu. Fodd bynnag, mae llawer ohonynt yn rhoi ystyriaeth dda i'w targedau llythrennedd wrth ddrafftio ac aildrafftio ac mae hyn yn gwella ansawdd eu gwaith ysgrifenedig. Mae llawer o ddysgwyr lefel 3 yn ysgrifennu testunau estynedig o ansawdd uchel.

Nid yw ychydig o ddysgwyr yn ysgrifennu'n ddigon da at amrywiaeth ddigon eang o ddibenion, yn enwedig mewn cyd-destunau galwedigaethol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Barn: Da

Defnyddir gwybodaeth o asesiadau gwaelodlin a deilliannau dysgwyr mewn cymwysterau cenedlaethol yn dda i neilltuo dysgwyr i wersi medrau ar wahân ar un o dair rhaglen sydd wedi'u rhannu'n haenau. Mae'r rhaglenni hyn wedi'u teilwra'n effeithiol i broffiliau unigol y dysgwyr.

Mae pob dysgwr â gradd D mewn TGAU Saesneg yn dilyn rhaglen werthfawr ar gyfer ailsefyll TGAU, sy'n ystyried gofynion yr arholiad allanol yn dda. Mae darpariaeth medrau sylfaenol ar wahân i'r rhai nad ydynt yn dilyn llwybr TGAU wedi'i chynllunio'n dda ac mae'n rhoi cefnogaeth fuddiol ar gyfer medrau cyfathrebu, ymchwil, a gwella cywirdeb a strwythur gwaith ysgrifennu dysgwyr. Mae'r rhaglen yn caniatáu am ddilyniant priodol i'r lefel nesaf neu i lwybr cymhwyster TGAU.

Mewn lleiafrif o feysydd dysgu galwedigaethol, mae dysgwyr yn dilyn dosbarthiadau llythrennedd sy'n arwain at gymwysterau cyfathrebu priodol Sgiliau Hanfodol Cymru. Er bod hyn yn caniatáu am ddull mwy hyblyg a chyd-destunol o gyflwyno medrau llythrennedd, nid yw'n cynnig llwybr dilyniant clir, cynlluniedig at ailsefyll TGAU Saesneg i bob dysgwr.

Mae cynlluniau dysgu bron pob pwnc yn nodi cyfleoedd priodol i ddatblygu llythrennedd. Mae cynlluniau dysgu llawer o bynciau yn rhoi manylion penodol am fynd i'r afael â gofynion llythrennedd eu pwnc a'u nodau i ddysgwyr. Mae'r cynlluniau gorau oll yn nodi'n gryf sut y caiff dysgwyr gefnogaeth wrth ymarfer medrau presennol a datblygu rhai newydd mewn cyd-destunau cyfoethog naturiol a pherthnasol.

Mae bron pob athro medrau yn adnabod ei ddysgwyr yn dda. Maent yn meddu ar wybodaeth dda am eu pwnc ac yn fodolau iaith da. Cadwnt gofnodion manwl o anghenion llythrennedd dysgwyr a'r cynnydd a wnânt.

Mewn llawer o wersi llythrennedd ar wahân, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac mae gwersi'n herio dysgwyr. Mae'r gwersi hyn wedi'u cynllunio'n dda ac mae athrawon yn defnyddio ystod eang o adnoddau, gan gynnwys adnoddau digidol, yn dda iawn i wella medrau dysgwyr. Er enghraifft, mae athrawon yn defnyddio technoleg ddigidol yn llwyddiannus i ehangu dewisiadau geirfa dysgwyr, rhannu adnoddau a datblygu syniadau.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu adborth a chefnogaeth unigol werthfawr i ddysgwyr. Mae hyn yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd. Mae llawer o athrawon yn defnyddio technegau holi penagored yn dda i ddatblygu meddwl ac i annog dysgwyr i ymhelaethu ar eu hatebion. Caiff dysgwyr gyfleoedd da i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith dysgwyr eraill mewn llawer o wersi.

Mewn tua hanner y gwersi llythrennedd ar wahân, mae athrawon yn cysylltu dysgu'n briodol â phrif feysydd astudio dysgwyr, i sicrhau bod dysgu yn berthnasol ac yn ennyn diddordeb y dysgwr.

Defnyddia'r rhan fwyaf o sesiynau pwnc amrywiaeth eang o weithgareddau i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o eirfa sy'n benodol i bwnc a sut i'w sillafu. Mae llawer o feysydd pwnc yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr a chymorth buddiol ar gyfer galwadau ysgrifennu eu pwnc.

Fodd bynnag, mewn ychydig feysydd, nid yw cymorth ar gyfer ysgrifennu at amrywiaeth o ddibenion sy'n berthnasol i anghenion pwnc dysgwyr wedi'i ddatblygu

cystal. Mewn ychydig wersi, nid yw athrawon yn defnyddio cyfleoedd i ymestyn a herio dysgwyr i ddatblygu eu medrau llythrennedd ymhellach yn llawn.

Mae polisi marcio gwerthfawr gan y coleg a chaiff ei ddefnyddio'n gyson gan lawer o athrawon. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio targedau dysgwyr yn dda i dalu sylw priodol i gywirdeb technegol gwaith dysgwyr. Mae monitro cyflawni targedau'n fanwl gan diwtoriaid personol yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da. Nid yw'r ddarpariaeth i nifer bach iawn o ddysgwyr ddatblygu eu medrau llythrennedd wedi'i datblygu'n ddigonol ac mae gosod targedau yn anghyson.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

Barn: Rhagorol

Mae uwch arweinwyr yn meddu ar weledigaeth strategol glir ar gyfer gwella deilliannau a'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd. Mae dysgwyr a thiwtoriaid ar bob lefel yn ei deall.

Mae gan y coleg strategaeth gynhwysfawr a chydlynol ar gyfer llythrennedd. Mae'r arweinwyr a'r holl staff yn ymroi i sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar y medrau a'r cymwysterau i symud ymlaen yn hyderus ac yn gymwys i gam nesaf eu dysgu neu i waith. Wrth wraidd y strategaeth y mae dull un-coleg o hyrwyddo lefel uchel o gysondeb o ran gwella lefelau llythrennedd pob dysgwr.

Caiff rôl a chyfrifoldebau arweinwyr ar bob lefel, meysydd pwnc, tiwtoriaid a staff cymorth o ran gwella lefelau llythrennedd dysgwyr eu diffinio'n glir yn y strategaeth.

Fel rhan o'r strategaeth, mae arweinwyr wedi datblygu adnoddau amrywiol a gweithgareddau datblygu proffesiynol ar gyfer staff, i wella'u medrau llythrennedd eu hunain a galluogi tiwtoriaid i ddatblygu medrau dysgwyr mewn ffyrdd effeithiol a diddorol ar draws pob pwnc. Mae'r datblygiad proffesiynol hwn yn cynnwys hyfforddiant wyneb yn wyneb, cyrsiau trosi effeithiol i athrawon sy'n addysgu rhaglenni TGAU a hybu medrau, ac adnoddau ar-lein cynhwysfawr.

Mae arweinwyr wedi mynd ati i addasu yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol ac wedi adolygu staffio a darpariaeth y cwricwlwm yn effeithiol ac yn ddyfeisgar i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n sefyll TGAU Saesneg.

Mae bron pob un o'r dysgwyr a'r tiwtoriaid yn deall perthnasedd profi, gosod targedau, asesu â ffocws ac adolygu cynnydd. Mae hyn yn cael effaith arwyddocaol ar fedrau llythrennedd dysgwyr mewn darpariaeth brif ffrwd.

Nodwedd ragorol o'r strategaeth yw'r ffordd y mae arweinwyr wedi annog bron pob tiwtor ar draws y coleg i ymroi'n llawn i dechnolegau newydd er mwyn hybu ffyrdd arloesol o ddatblygu eu haddysgu a datblygu medrau dysgwyr ymhellach, ac fel llwyfan i diwtoriaid rannu arfer orau o ran addysgu medrau ar draws y coleg.

Mae rhaglen hunanarfarnu reolaidd a thrylwyr gan y coleg, sy'n canolbwyntio ar llythrennedd a rhifedd ac sy'n defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth uniongyrchol

yn effeithiol. Mae adolygiadau diweddar wedi darparu arfarniadau clir o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gywir o gryfderau llythrennedd a'i feysydd i'w datblygu ar draws y coleg, ac yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau bod y cynnydd a wnaed eisoes yn gyson ac yn parhau.

Rhifedd

Cyd-destun y maes dysgu

Caiff rhifedd yn y coleg ei addysgu trwy gymorth i ddysgwyr, dosbarthiadau Sgiliau Hanfodol Cymru, dosbarthiadau Bagloriaeth Cymru, dosbarthiadau TGAU ac Addysg Sylfaenol Oedolion. Yn ystod yr arolygiad hwn, ni wnaethom arolygu Addysg Sylfaenol Oedolion fel rhan o'r maes dysgu hwn.

Mae'r coleg yn defnyddio adnodd asesu cychwynnol a diagnostig safonol i nodi anghenion medrau dysgwyr. Mae deilliannau asesu cychwynnol 2014-2015 yn rhoi'r canlyniadau rhifedd canlynol:

0.17% o ddysgwyr ar lefel cyn-mynediad

1.77% o ddysgwyr ar lefel mynediad 1

8.80% o ddysgwyr ar lefel mynediad 2

39.65% o ddysgwyr ar lefel mynediad 3

40.43% o ddysgwyr ar lefel 1

9.18% o ddysgwyr ar lefel 2

Argymhellion ar gyfer y maes dysgu

A1 Sicrhau bod llwybrau dilyniant i raglenni ailsefyll TGAU mathemateg wedi'u cynllunio ar gyfer pob dysgwr

A2 Sicrhau bod pob dysgwr yn gallu dysgu, ymarfer a datblygu medrau rhifedd heriol trwy eu dosbarthiadau pwnc neu ddosbarthiadau galwedigaethol

Prif Ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Barn: Da

Yn 2013-2014, roedd cyfraddau llwyddiant yng nghymhwyster Cymhwysio Rhif Sgiliau Hanfodol Cymru ymhell uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol, gan ddangos tuedd o wella dros dair blynedd ac yn y chwarter uchaf o gymharu â chanlyniadau colegau eraill yng Nghymru.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cael asesiad cychwynnol a diagnostig priodol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn deall eu cryfderau a'u meysydd i'w datblygu'n dda ac yn siarad yn rhugl am eu cynnydd eu hunain mewn rhifedd. Mae ychydig ddysgwyr yn gwneud defnydd arbennig o dda o'r adnoddau yn adnodd asesu diagnostig y coleg ei hun, a gweithiant yn annibynnol i wirio eu cynnydd eu hunain yn erbyn eu targedau o bryd i'w gilydd.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gosod targedau perthnasol ar sail eu hasesiad cychwynnol i'w helpu i wella'u medrau rhifedd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio meddalwedd rheoli dysgwyr y coleg yn hynod effeithiol i fonitro eu targedau'n rheolaidd ac olrhain eu cynnydd eu hunain. Mae dysgwyr yn siarad â'u tiwtoriaid yn rheolaidd am eu cynnydd mewn rhifedd.

Pan fydd cyfle i ddefnyddio medrau rhifedd yn digwydd yn naturiol yn eu rhaglenni, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu ac yn defnyddio'u medrau rhifedd presennol yn dda yn eu dosbarthiadau pwnc a galwedigaethol.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn gwneud cynnydd da iawn yn gwella'u medrau rhifedd trwy eu dosbarthiadau pwnc a'u dosbarthiadau galwedigaethol lle y gallant ddysgu ffyrdd newydd o gymhwyso rhif sy'n berthnasol i'w meysydd. Er enghraifft, mae dysgwyr gwaith asiedydd yn cyfrifo mesuriadau o luniadau wrth raddfa, yn cyfrifo onglau i greu uniadau cymhleth, yn mesur gan ddefnyddio riwliau a thâp mesur ac yn defnyddio rheol 3, 4, 5 (Pythagoras) i sgwario gwaith. Mae dysgwyr cymdeithaseg Safon Uwch yn cymharu ystadegau cyhoeddedig, yn dehongli eu hystyr ac yn dod i gasgliadau i ategu eu dadleuon. Mae dysgwyr arlwygo yn cyfrifo meintiau mewn ryseitiau ar gyfer nifer amrywiol o ddogneau. Mae dysgwyr amaethyddiaeth yn cyfrifo cymarebau stoc addas o feheryn a mamogiaid i sicrhau wyna effeithlon.

Mewn gwersi amserlenedig TGAU mathemateg, rhaglenni datblygu rhifedd (SkillsBoost) a dosbarthiadau Cymhwyso Rhif Sgiliau Hanfodol Cymru, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da mewn dysgu. Maent yn ymarfer ac yn datblygu medrau rhifedd presennol a rhai newydd wrth baratoi ar gyfer arholiadau, er mwyn symud ymlaen i gyrsiau TGAU neu i gwblhau asesiadau rheoledig.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio'r adnoddau electronig a rennir gan eu tiwtoriaid yn hyderus. Defnyddiant nodiaduron yn eu dosbarthiadau, gan fynd at amrywiaeth o gymwysiadau, gwefannau a chyfryngau electronig yn naturiol fel rhan o'u dysgu.

Fodd bynnag, mewn ychydig feysydd dysgu, ni chaiff lleiafrif o ddysgwyr eu herio'n ddigonol ac nid ydynt yn datblygu eu medrau rhifedd na dysgu medrau newydd trwy eu pynciau neu eu rhaglenni galwedigaethol yn ddigon cyflym. Mewn nifer bach iawn o achosion, nid yw dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwybod beth yw eu manau cychwyn na pha feysydd y mae angen iddynt eu bodloni er mwyn gwella.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Barn: Da

Mae'r coleg wedi cynllunio'n dda ar gyfer y newidiadau cenedlaethol i'r ddarpariaeth llythrennedd a rhifedd. Mae strwythur cydlynol i alluogi dysgwyr ym mhob maes dysgu ddatblygu, ymestyn ac ymarfer eu rhifedd a'u mathemateg.

Ym mwyafrif y meysydd dysgu, mae dysgwyr â graddau is mewn TGAU, neu ddysgwyr â medrau mathemateg sydd heb eu datblygu cystal, yn cael eu neilltuo i ddosbarthiadau penodol sy'n eu galluogi i weithio tuag at ailsefyll y cymhwyster TGAU ymhen amser.

Mewn lleiafrif o feysydd dysgu, sef adeiladu, cerbydau modur a pheirianeg yn benodol, mae dysgwyr yn dilyn dosbarthiadau rhifedd sy'n arwain at gymwysterau cymhwyso rhif Sgiliau Hanfodol Cymru. Mae'r rhain ar lefel briodol i'w gallu a'u rhaglen. Er bod hyn yn caniatáu dull mwy hyblyg a chyd-destunol o gyflwyno medrau rhifedd, nid yw'n cynnig llwybr dilyniant clir a chynlluniedig i bob dysgwr ailsefyll TGAU mathemateg.

Ar y cyd â'u tiwtoriaid, mae dysgwyr sydd eisoes â graddau A*-C mewn TGAU mathemateg yn gosod targedau i wella'u medrau rhifedd ac maent yn cael eu cofrestru i gwblhau cymhwyster cymhwyso rhif Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefel 3.

Mae bron pob un o'r athrawon yn gyfarwydd â deilliannau asesiadau cychwynnol a diagnostig eu dysgwyr. Defnyddiant raglen electronig y coleg ar gyfer rheoli dysgwyr yn effeithiol iawn i helpu dysgwyr i osod targedau rhifedd a monitro eu cynnydd yn rheolaidd. Mae athrawon mewn timau cwrs yn cyfathrebu â'i gilydd yn dda iawn. Mae hyn yn arwain at ddull cydlynol o ddatblygu medrau dysgwyr a nodi a chefnogi dysgwyr sydd mewn perygl o ddisgyn ar ei hôl hi. Mewn nifer bach iawn o achosion, mae athrawon mewn dosbarthiadau pwnc neu ddosbarthiadau galwedigaethol yn defnyddio'u gwybodaeth am alluoedd rhifedd eu dysgwyr i gynllunio gweithgareddau gwahaniaethol i ymestyn medrau rhifedd dysgwyr ag ystod o alluoedd.

Mewn dosbarthiadau TGAU Mathemateg, SkillsBoost a chymhwyso rhif, mae athrawon yn cynllunio'u gwersi'n dda. Defnyddiant amrywiaeth o weithgareddau i gynnal diddordeb dysgwyr, hybu dealltwriaeth ac amseru cyflymder eu gwersi'n dda. Rhoddant sylw unigol i ddysgwyr lle bo'r angen ac esboniant gysyniadau mathemategol yn dda, gan gydnabod y gall llawer o ddysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o brosesau dilys i ddatrys problemau mathemategol. Maent yn marcio gwaith dysgwyr yn rheolaidd ac yn effeithiol ac yn rhoi nodiadau defnyddiol ar sut i wella.

Mewn dosbarthiadau pwnc a dosbarthiadau galwedigaethol, mae bron pob athro yn cynllunio cynlluniau dysgu sy'n caniatáu i ddysgwyr ymarfer eu medrau rhifedd presennol mewn amryw gyd-destunau. Fodd bynnag, nid yw rhyw hanner yr athrawon yn cynllunio'n ddigon da i ehangu'r cyfleoedd hynny'n ffyrdd y gall dysgwyr ddysgu medrau rhifedd newydd. Mewn dosbarthiadau pwnc neu alwedigaethol, mae lleiafrif o athrawon yn colli cyfleoedd i ddefnyddio holi i ymestyn a herio pob dysgwr i ddatblygu'i fedrau rhifedd. Nid yw lleiafrif o athrawon yn esbonio'r cysyniadau rhifedd

sy'n digwydd yn eu gwersi yn ddigon da a'r canlyniad yw na all pob dysgwr gymhwyso'r medr yn effeithiol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

Barn: Da

Mae uwch arweinwyr wedi amlinellu'n glir pa mor bwysig yw datblygu medrau rhifedd fel un o flaenoriaethau'r coleg. Mae'r neges hon yn gyson ar draws holl lefelau rheoli a staff addysgu'r coleg. O ganlyniad, mae pob dysgwr yn deall beth yw gwerth datblygu ei fedrau yn glir ac yn cymryd gosod targedau o ddifrif.

Mae arweinwyr wedi cynllunio'n drefnus ar gyfer y newidiadau cenedlaethol i'r cwricwlwm rhifedd ac wedi rhoi model cwricwlaidd ar waith sy'n darparu ar gyfer cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n ailsefyll TGAU mathemateg ac yn dilyn rhaglenni SkillsBoost. Mae adnoddau helaeth wedi'u dosbarthu ar gyfer hyn, ynghyd ag ailhyfforddi staff.

Mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn y ddarpariaeth rhifedd ar draws y coleg ac maent wedi cynllunio hyfforddiant staff yn unol â hynny. Mae'r coleg wedi trefnu amrywiaeth o weithgareddau defnyddiol i ddatblygu staff, sydd wedi datblygu gallu athrawon i addysgu rhifedd yn fwy effeithiol. Mae athrawon sy'n cyflwyno darpariaeth rhifedd ar wahân wedi ymgymryd â hyfforddiant trosi i'w paratoi'n well ar gyfer eu rolau newydd. Mae llawer o athrawon mewn meysydd pwnc a galwedigaethol wedi mynychu digwyddiadau datblygu staff ar sut i gynnwys rhifedd mewn cynlluniau dysgu a chynllunio gwersi.

Mae effaith datblygiad proffesiynol athrawon ym maes rhifedd i'w weld yn y ffordd y mae athrawon yn cynllunio ac yn cyflwyno gwersi mewn dosbarthiadau rhifedd penodol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i ddatblygu'n ddigonol mewn dosbarthiadau galwedigaethol a phwnc ac nid oes digon o ddysgwyr yn cael cyfle i ddysgu, ymarfer a datblygu eu medrau rhifedd yng nghyd-destun eu prif raglenni astudio.

Trin Gwallt a Harddwch

Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r adran trin gwallt a harddwch yn gyfrifol am oddeutu 6.4% o ddarpariaeth Coleg Cambria. Yn 2013-2014, cyflwynwyd cyrsiau ar draws tri champws lâl, Glannau Dyfrdwy a Hyfforddiant Wrecsam. O 2015-2016 ymaen, bydd cyrsiau'n cael eu cynnig ar gampysau lâl a Glannau Dyfrdwy yn unig.

Mae'r adran yn cyflwyno amrywiaeth eang o gyrsiau amser llawn, o lefel mynediad i lefel 3. Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyrsiau trin gwallt, therapi harddwch, therapi sba, gwasanaethau ewinedd a cholur i'r theatr a'r cyfryngau.

Argymhellion ar gyfer y maes dysgu

A1 Datblygu rhaglen gadarn ac ystyrlon o brofiad gwaith i bob dysgwr

A2 Adolygu'r strategaethau rheoli presennol i wella cyfraddau presenoldeb dysgwyr

A3 Sicrhau bod yr adroddiad hunanasesu yn adlewyrchu'r arfer bresennol yn y maes dysgu yn gywir

Prif Ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Barn: Rhagorol

Yn 2013-2014, roedd y gyfradd llwyddiant ar gyfer y maes dysgu yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer cyrsiau sylwedd a phob cwrs. Mae'r maes dysgu yn gosod y coleg yn y chwarter uchaf o blith holl golegau Cymru a bu tuedd gyson o wella dros y tair blynedd diwethaf.

Mae dysgwyr ar bob lefel yn cyflawni uwchlaw'r cymaryddion cenedlaethol ac mae ychydig gyrsiau'n perfformio'n uwch o lawer.

Mae dysgwyr yn cyflawni'n llwyddiannus, ni waeth beth yw eu cefndir, ac mae'r dysgwyr sydd angen cymorth penodol yn cyflawni'r un safonau uchel â'u cymheiriaid. Ar bob lefel, mae bron pob un o'r dysgwyr yn cyflawni eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn cymhwysio rhif, TGCh a chyfathrebu.

Yn eu gwaith ymarferol, mae bron pob un o'r dysgwyr trin gwallt a harddwch yn datblygu medrau proffesiynol o ansawdd uchel. Yn y salonau masnachol ar y ddau safle, mae bron pob un o'r dysgwyr trin gwallt a therapi harddwch yn arddangos gweithio annibynnol rhagorol a medrau cyfathrebu hynod effeithiol. Mae dysgwyr yn dangos lefelau uchel o ddealltwriaeth pan fyddant yn ymgynghori â'u cleientiaid. Mae hyn yn golygu bod bron pob un o'r dysgwyr yn nodi ac yn defnyddio amrywiaeth fawr o fedrau cymhleth yn broffesiynol. I ategu hyn, mae dysgwyr yn datblygu medrau adwerthu cryf sy'n cael eu datblygu trwy dargedau misol a osodir yn ôl gallu a medrau'r dysgwyr.

Yn dilyn asesiad cychwynnol, mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun eu cwrs. Er enghraifft, gall dysgwyr lefel 2 esbonio'r defnydd ar onglau yn hyderus wrth steilio i roi siâp i wallt. Mae dysgwyr yn gosod eu targedau eu hunain ar gynlluniau dysgu unigol electronig ac yn monitro eu cynnydd a'u cyrhaeddiad unigol. Dangosant lefelau uchel o hyder a medrau datblygedig wrth ddefnyddio adnoddau ar-lein.

Mae ychydig ddysgwyr yn cymryd rhan yn dda mewn cystadlaethau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Trwy'r cyfleoedd hyn, mae dysgwyr yn datblygu medrau arloesol a buddiol i'w cyflogaeth yn y dyfodol a'u cyfleoedd dilyniant.

Mae dysgwyr rhugl eu Cymraeg yn defnyddio'u medrau iaith i gyfathrebu â chleientiaid Cymraeg eu hiaith ac yn helpu eu cyfoedion â datblygu medrau Cymraeg. Mae ychydig ddysgwyr yn defnyddio taflenni ymgynghori dwyieithog sy'n ymestyn eu geirfa dechnegol Gymraeg.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau eu dysgu yn y coleg. Mae dysgwyr yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch tuag at athrawon a'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymroi'n dda i'w dysgu ac yn cyfrannu'n weithgar at wersi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio technoleg yn eithriadol o dda i ategu ac ymestyn eu profiad dysgu.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Barn: Rhagorol

At ei gilydd, mae'r coleg yn dangos ymrwymiad cadarn i fodloni anghenion y dysgwyr. Mae'r maes dysgu yn hybu manteision ffyrdd iach o fyw a lles personol yn effeithiol ac yn sicrhau diogelwch yr holl ddysgwyr yn eu hamgylcheddau dysgu.

Mae rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn dda i lywio cynllunio'r cwricwlwm. Mae'r maes dysgu'n cynnig cyfle i ddysgwyr astudio o lefel mynediad i lefel 3 ac mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da ac, weithiau, cynnydd da iawn drwy'r lefelau hyn.

Cynigir cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr fynychu lleoliadau gwaith mewn salonau lleol ac yn salonau masnachol y coleg ar gampysau lâl a Glannau Dyfrdwy hefyd. Fodd bynnag, mae'r cynllunio ar gyfer lleoliadau profiad gwaith yn amrywio rhwng cyrsiau a champysau.

Mae bron pob un o'r athrawon yn cynllunio gwersi'n dda. Defnyddiant amrywiaeth o strategaethau addysgu a hyfforddi heriol a symbylol sy'n ennyn diddordeb bron pob un o'r dysgwyr. Fodd bynnag, mewn nifer bach iawn o sesiynau, nid yw athrawon yn dewis y strategaethau addysgu mwyaf priodol i'w galluogi i fodloni anghenion yr holl ddysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cysylltu'n effeithiol iawn â gwersi blaenorol i sefydlu cyd-destun ar gyfer dysgu medrau newydd. Mae bron pob un o'r athrawon ac aseswyr yn defnyddio gwybodaeth dechnegol a gwybodaeth gyfredol am eu pwnc yn eithriadol o dda. Mae hyn yn gwella profiad y dysgwr ac yn galluogi dysgwyr i ddangos safon uchel o waith ym mron pob sesiwn.

Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio adnoddau a rhaglenni digidol yn eithriadol o dda i hybu dysgu, cefnogi asesu, ac olrhain a monitro cynnydd. Mae llawer o'r adnoddau yn hynod effeithiol ac mae'r defnydd blaengar ar adnodd y gymuned ar-lein yn gwella profiad dysgu bron pob dysgwr yn gadarnhaol. Fodd bynnag, caiff adnoddau digidol eu gorddefnyddio mewn ychydig wersi. Mae hyn yn golygu nad yw ychydig ddysgwyr yn dysgu sut i ddefnyddio ystod eang o ddeunyddiau i ategu eu dysgu.

Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio technegau holi yn effeithiol trwy gydol y wers i asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr. Fodd bynnag, mewn ychydig wersi, ni roddodd cwestiynau ddigon o her i ddysgwyr na'u hymestyn yn ddigonol.

Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio tystiolaeth a chyfleoedd gwerthfawr sy'n digwydd yn naturiol i ddatblygu ac asesu llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd

digidol dysgwyr. Mae bron pob un o'r athrawon yn cynllunio asesiadau realistig ac yn rhoi adborth ysgrifenedig da i ddysgwyr sy'n sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni eu cymwysterau.

Mae'r maes dysgu'n darparu gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel. Caiff dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol gymorth da trwy ddewis helaeth o opsiynau cymorth.

Mae'r maes dysgu'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda ar y ddau safle trwy ddatblygu amgylchedd cynhwysol. Mae dysgwyr yn mwynhau gweithio yn yr ardaloedd masnachol ar gleientiaid o amryw gefndir gwahanol. Mae'r ardaloedd masnachol ar y ddau safle yn darparu offer da ac yn cynorthwyo'r dysgwyr i weithio yn ôl safon broffesiynol uchel iawn.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

Barn: Rhagorol

Mae cyfarwyddwr a dirprwy gyfarwyddwyr y maes dysgu yn hynod effeithiol o ran rhoi cyfeiriad clir a hybu safonau uchel sy'n gwella addysgu, dysgu a phrofiad y dysgwyr. Mae dirprwy gyfarwyddwyr yn monitro dangosyddion perfformiad allweddol yn wythnosol ac ânt at y wybodaeth hon yn hawdd trwy systemau gwybodaeth reoli.

Mae rolau a chyfrifoldebau arweinwyr a rheolwyr yn glir ac mae cyfathrebu da iawn rhwng y dirprwy gyfarwyddwyr ar y gwahanol safleoedd.

Mae gan y cyfarwyddwr, y dirprwy gyfarwyddwyr ac athrawon berthynas lwyddiannus a chadarn iawn â chyflogwyr a chwmnïau brandiau trin gwallt a harddwch. Defnyddiant y rhain yn helaeth i wella profiad masnachol y dysgwyr a hyrwyddo gwaith a chyfeiriad y maes gwaith.

Mae ysbryd, symbyliad a brwdfrydedd staff yn dda iawn ac, at ei gilydd, mae'r maes dysgu yn bodloni'r rhan fwyaf o dargedau perfformiad. Trefnir cyfarfodydd timau cyrsiau yn briodol trwy gydol y flwyddyn ac mae athrawon yn defnyddio data'n effeithiol i osod amcanion a thargedau cyrsiau.

Mae gan y maes dysgu bartneriaethau hynod effeithiol ag amrywiaeth eang o ddarparwyr a chaiff y rhain effaith gadarnhaol ar y profiad dysgu ac ar ddeilliannau dysgwyr. Mae rheolwyr yn gweithio'n effeithiol iawn gyda phartneriaid i lywio cwricwlwm y coleg. Mae'r maes dysgu wedi cynnal ymgynghoriadau â chyflogwyr i sicrhau bod y cwricwlwm yn ymateb i anghenion y sector lleol. Mae cynllunio'r cwricwlwm yn ystyried blaenoriaethau cyflogwyr, gan sicrhau bod dysgwyr yn fedrus iawn.

Mae'r tîm rheoli'n cyfathrebu'n dda iawn ac yn ymroi i wella ansawdd y ddarpariaeth. Gwna rheolwyr ddefnydd da o ddata meincnodi i osod targedau heriol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o staff yn ymroi i wella ansawdd; mae hyn i'w weld yn amlwg yn y duedd o wella mewn perfformiad. Mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio dangosfwrdd

y coleg yn hynod effeithiol i fonitro perfformiad cwrs. Mae adroddiad hunanasesu'r maes dysgu yn ddogfen gynhwysfawr. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn adlewyrchu'r arfer bresennol yn y maes dysgu yn gywir.

Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid

Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r Coleg yn cynnig wyth maes astudiaethau tir ar ddau gampws. Mae campws Llysfasi yn cynnig cyrsiau'r tir mewn amaethyddiaeth, gofal anifeiliaid, peirianeg tir, a choedwigaeth a chadwraeth. Mae campws Llaneurgain yn cynnig cyrsiau'r tir mewn gofal anifeiliaid, gofal ceffylau, garddwriaeth a blodeuwriaeth. Dyma ddarparwr mwyaf cyrsiau'r tir ar lefel addysg bellach yng Nghymru, felly bydd cyfraddau llwyddiant yn cael dylanwad ystadegol arwyddocaol ar gymaryddion cenedlaethol.

Mae'r arolygiad o'r maes dysgu hwn yn cynnwys cyrsiau amaethyddiaeth, gofal ceffylau a gofal anifeiliaid bychain yn unig.

Argymhellion ar gyfer y maes dysgu

- A1 Gwella cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant ymhellach
- A2 Sicrhau bod pob athro yn cynnwys cyfleoedd dysgu rhifedd sy'n herio pob dysgwr
- A3 Sicrhau bod y cynllun rheoli ansawdd yn cynnwys targedau interim a fydd yn helpu rheolwyr i fonitro cynnydd tuag at y deilliannau bwriadedig

Prif Ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Barn: Da

Y gyfradd llwyddiant mewn cyrsiau sylwedd mewn amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid oedd 78% yn 2013-2014, gan gyfateb i'r cymharydd cenedlaethol. Mae'r coleg yn yr ail chwarter o gymharu â cholegau eraill yng Nghymru. Dros dair blynedd y data a ddadansoddwyd, fe wnaeth cyfraddau llwyddiant ddirywio adeg uno'r colegau ac yna cafwyd gwelliant.

Gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr gynnydd da tuag at eu targedau dysgu, y maent yn eu gosod a'u cytuno gyda'u tiwtoriaid. Mae bron pob un ohonynt yn deall eu cynnydd yn glir; maent yn ei olrhain gan ddefnyddio adnodd monitro data'r coleg. Mewn ychydig ddsbarthiadau, mae rhai dysgwyr yn asesu eu gwaith ymarferol ei gilydd a gwaith y dosbarth, sy'n eu helpu i wella ansawdd eu haseiniadau. Mae ffolder gwaith bron pob un o'r dysgwyr yn cynnwys gwaith o safon dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ymarferol yn dda. Mae dysgwyr profiadol yn cynnig arddangosiadau defnyddiol i'w cymheiriaid, er enghraifft wrth roi

tagiau ar glustiau defaid. Mae pob dysgwr yn trafod anifeiliaid yn gymwys, yn hyderus, a gyda pharch. Mae dysgwyr gofal anifeiliaid yn arddangos medrau marchogaeth da ac yn cyfrannu'n frwdfrydig at ddyletswyddau'r iard sy'n sicrhau lles y ceffylau.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn cystadlaethau a digwyddiadau sy'n cael eu trefnu neu eu cefnogi gan y coleg, gan ymestyn eu medrau ymhellach yn y rhain. Mae enghreifftiau'n cynnwys digwyddiadau marchogaeth a chystadlaethau cneifio.

Mae'r ganolfan farchogaeth a'r fferm fasnachol yn rhoi ffocws i ddealltwriaeth dysgwyr o gyd-destun busnes eu hastudiaethau. Mae dysgwyr yn symud ymlaen yn dda i addysg uwch.

Mae'r holl ddysgwyr yn gyfarwydd â lefel bresennol eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae dysgwyr yn gosod eu targedau eu hunain ar gyfer datblygu sillafu, atalnodi a gramadeg. Mae llawer o ddysgwyr yn gwella'u geirfa a'u defnydd ar eirfa dechnegol mewn dosbarthiadau. Caiff defnydd dysgwyr ar dechnoleg yn y dosbarth ac ar gyfer aseiniadau effaith gadarnhaol ar eu medrau llythrennedd digidol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn elwa o ddeunyddiau dysgu ac arddangosiadau dwyieithog. Mewn amaethyddiaeth, mae Cymraeg achlysurol yn gyffredin mewn ymarferion yn y dosbarth ac mewn sesiynau ymarferol, ac mae llawer o ddysgwyr yn mynychu dosbarthiadau dwyieithog. Mewn llawer o gyrсияu eraill, caiff dysgwyr eu hannog i ddatblygu medrau Cymraeg trwy ddefnyddio Cymraeg achlysurol neu ymadroddion Cymraeg allweddol.

Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o iechyd a diogelwch. Maent yn ymddwyn yn gyfrifol yn ystod gweithgareddau galwedigaethol ac yn nodi pa offer diogelu personol sydd eu hangen arnynt yn hawdd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu'n rheolaidd ac yn cymryd rhan yn dda mewn gwersi ac yn mwynhau eu gwaith. Mae ymddygiad dysgwyr yn rhagorol.

Mae dysgwyr yn canolbwyntio'n dda ar dasgau ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Cefnogant ei gilydd yn dda a dangosant ymddygiad rhagorol tuag at ei gilydd, staff ac anifeiliaid. Maent yn hyderus ac yn cyfathrebu'n dda. Dangosant barch tuag at eu cyfleusterau ac maent yn falch o'u coleg.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Barn: Da

Mae'r maes dysgu'n cynnig ystod dda o gyrсияu sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr ym maes tir a'r gymuned. Mae athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn dda i ganiatáu i ddysgwyr ddilyn cyrsiau sy'n cyfateb yn briodol i'w hanghenion. Gwnânt yn siŵr bod cyfleoedd da i ddysgwyr symud ymlaen i gyrсияu gwahanol.

Ar y cyfan, caiff llythrennedd a rhifedd, y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig, ac addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang eu cynllunio'n dda ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn Llysfasi yn rhoi cyfleoedd helaeth i ddysgwyr

ddatblygu medrau Cymraeg. Fodd bynnag, mae ychydig athrawon yn colli cyfleoedd i ddatblygu medrau a'r Gymraeg ymhellach yn y cwricwlwm.

Mae gweithdrefnau sefydlu cynhwysfawr ar gyfer dysgwyr. Mae cyngor, arweiniad a chymorth parhaus yn gyson ac mae dysgwyr yn gwybod ble i gael cymorth. Mae gweithdrefnau diogelu yn gadarn, a chaiff dysgwyr gymorth da drwy'r system diwtorialau. Mae cymorth arbenigol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol a chaiff dysgwyr fynediad addas at gymorth ychwanegol i ddatblygu eu medrau.

Mae'r maes dysgu yn cynnig amgylchedd cynhwysol, diogel y mae'r dysgwyr yn falch ohono. Darperir adnoddau da ar gyfer ystâd y coleg, gyda rhai enghreifftiau o gyfleusterau gyda'r mwyaf modern yn y diwydiant, er enghraifft uned laeth y fferm.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio sesiynau'n dda gydag amcanion clir ac maent yn cynnwys gweithgareddau sy'n hoelio sylw ac yn herio dysgwyr ar bob lefel. Mae athrawon yn cyflwyno llawer o sesiynau ar gyflymder da, gyda gweithgareddau wedi'u hamseru'n briodol sy'n symbylu dysgwyr ac yn datblygu eu medrau. Mae llawer o athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu a dysgu'n dda i atgyfnerthu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau dysgu'n effeithiol, gan gynnwys TGCh, yn yr ystafell ddosbarth ac mewn sesiynau ymarferol i symud dysgu yn ei flaen.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio gwybodaeth dechnoleg gyfredol dda a gwybodaeth dda am eu pwnc. Fodd bynnag, nid yw athrawon mewn lleiafrif o sesiynau yn manteisio ar dechnegau holi i ymestyn, herio a chynnwys pob dysgwr. Mewn llawer o sesiynau, mae athrawon yn defnyddio adborth adeiladol yn dda i wella gwaith dysgwyr a gwella'u graddau. Mae cynlluniau dysgu yn dangos bod llawer o athrawon yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau llythrennedd. Fodd bynnag, nid yw ychydig asesiadau ysgrifenedig anffurfiol yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd datblygu llythrennedd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn datblygu medrau rhifedd dysgwyr yn dda. Fodd bynnag, mae ychydig yn colli cyfleoedd i ymestyn dysgwyr i'w potensial llawn. Mae gan bron pob un o'r athrawon ysgrifau portread defnyddiol o ddysgwyr sy'n cynnwys anghenion dysgu dysgwyr, ond nid yw ychydig athrawon yn eu defnyddio'n llawn wrth gynllunio'u haddysgu.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

Barn: Da

Mae arweinyddiaeth, gweledigaeth a chyfeiriad strategol da wedi dylanwadu ar ddatblygiad darpariaeth dysgu o ansawdd uchel ar gampysau Llysfasi a Llaneurgain. Mae buddsoddiad sylweddol wedi gwella ansawdd yr adnoddau addysgu a dysgu. Mae strwythur rheoli da yn cynnig ffocws clir ar gyfer datblygu campysau Llaneurgain a Llysfasi ymhellach.

Mae'r holl staff yn rhannu dealltwriaeth drylwyr o nodau strategol Coleg Cambria a deallant yn glir sut maent yn cyfrannu at ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach. Mae ganddynt ymrwymiad cryf i ethos y coleg a'r ymddygiad mae'r coleg yn anelu at ei hybu ymhlith staff. Diffinnir rolau staff yn glir. Mae systemau rheoli perfformiad

effeithiol yn llywio'r gwaith o gynllunio datblygiad staff. Mae gweithdrefnau da ar waith i gynorthwyo staff sydd wedi bod yn absennol am gyfnod hir i ddychwelyd i'r gwaith.

Mae datblygu llwyfan dysgu ar y rhyngwyd wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar symbyliad a datblygiad staff ac ar rannu adnoddau o ansawdd uchel ac ymagwedd gydlynol at addysgu.

Yn ddiweddar, mae rheolwyr wedi cryfhau cynllun y cwricwlwm i wella gallu dysgwyr i lwyddo ac ennill cymwysterau. Mae gweithdrefnau dewis eisoes wedi'u cryfhau ar gyfer cyrsiau gofal ceffylau ac amaethyddiaeth i wella ymwybyddiaeth dysgwyr o ofynion y cyrsiau, gyda'r nod o wella cyfraddau cadw. Mae rheolwyr wedi hyrwyddo gwell ffocws ar fonitro dysgwyr yn gynnar i leihau'r posibilrwydd y byddant yn rhoi'r gorau i ddysgu.

Mewn cyfarfodydd tîm, mae staff yn adolygu a thrafod perfformiad dysgwyr yn rheolaidd, gan ddefnyddio dangosfwrdd y system gwybodaeth reoli yn dda i fonitro perfformiad dysgwyr.

Trwy chwarae rhan ddefnyddiol yng ngrŵp Landex o golegau astudiaethau tir, mae'r maes dysgu wedi gallu manteisio ar ddigwyddiadau hyfforddi o ansawdd da; defnyddiwyd y rhain gan lawer o staff i wella'u medrau haddysgu a diweddarau eu medrau galwedigaethol.

Mae gan y coleg bartneriaethau strategol sefydledig â darparwyr astudiaethau tir eraill yng Nghymru i gefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r dysgu a gyflwynir gan golegau addysg bellach, a pherthnasedd yr hyn a gyflwynir wrth gefnogi busnesau fferm yng Nghymru.

Mae cysylltiadau da rhwng y coleg a diwydiannau tir lleol. Mae'r rhain yn galluogi dysgwyr i ennill profiad gwaith cynhyrchiol a chyfleoedd buddiol am ddilyniant.

Mae cysylltiadau effeithiol â sefydliadau addysg uwch yn gwella ymwybyddiaeth dysgwyr o ddilyniant ac yn codi eu huchelgeisiau.

Mae buddsoddi yng nghampysau astudiaethau tir wedi gwella ystod ac ansawdd y cyfleusterau sydd ar gael i staff a dysgwyr.

Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal
--

Cyd-destun y maes dysgu

Mae Coleg Cambria yn cyflwyno cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol ar ei gampysau yng Nglannau Dyfrdwy ac Iâl. Mae bron 600 o ddysgwyr amser llawn ar amrywiaeth o lefelau, sy'n cynnwys:

- 1 Diploma Lefel 1 mewn Cyflwyniad i Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- 2 Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- 3 Diploma 90 credyd Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- 4 Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- 5 Diploma Mynediad i Addysg Uwch mewn Gofal Iechyd

Fe wnaeth yr arolygiad o'r maes dysgu hwn gynnwys cyrsiau Iechyd a gofal cymdeithasol a chysiau mynediad. Fodd bynnag, ni wnaeth yr arolygiad gynnwys cyrsiau mewn gofal plant a gwasanaethau cyhoeddus.

Argymhellion ar gyfer y maes dysgu

- A1 Sicrhau bod pob targed ar gyfer dysgwyr yn gyson benodol a heriol
- A2 Sicrhau bod yr holl athrawon yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau addysgu i hoelio sylw a herio pob dysgwr
- A3 Gwella'r defnydd ar dargedau penodol a mesuradwy yng nghynllun gwella ansawdd y maes dysgu

Prif Ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Barn: Da

At ei gilydd, yn 2013-2014, mae cyfraddau llwyddiant dysgwyr ar gyrsiau sylwedd ar lefelau 1, 2 a 3 yn cyfateb i'r cymaryddion cenedlaethol, neu'n agos atynt. Mae cyfradd llwyddiant y cwrs Mynediad i Addysg Uwch, y Diploma Gofal Iechyd, yn uchel iawn, sef 95%.

Mae tueddiadau mewn data, ar draws bob mesur, yn dangos patrwm sefydlog cyson, er y bu ychydig o ostyngiad yn 2012-2013 adeg yr uno. Mae'r maes dysgu'n gosod y coleg yn yr ail chwarter yn gyson, o gymharu â phob coleg yng Nghymru.

Mae lleiafrif o ddysgwyr yn symud ymlaen yn dda o lefel 1 i lefel 2 ac o lefel 2 i lefel 3. Mae tua hanner dysgwyr lefel 3 yn symud ymlaen i addysg uwch.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gosod ystod eang o dargedau dysgu defnyddiol i'w hunain. Mae'r targedau hyn yn eu helpu i symud ymlaen a datblygu eu medrau o fewn eu rhaglenni astudio. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddysgwyr yn gosod targedau nad ydynt yn ddigon penodol na heriol i ymestyn eu cynnydd a'u helpu i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu dosbarthiadau llythrennedd a rhifedd a gynlluniwyd yn dda, sy'n benodol i'w hangen a'u gallu unigol. Mae'r rhain yn caniatáu i ddysgwyr symud ymlaen o'r cymwysterau blaenorol y maent wedi eu hennill. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn defnyddio TGCh yn effeithiol iawn yn eu dysgu.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwrando'n astud mewn gwersi ac yn cwblhau'r holl dasgau a gweithgareddau a gynllunnir ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid yw ychydig ddysgwyr yn talu sylw llawn mewn gwersi. Oherwydd hyn, ychydig bach iawn o gynnydd a wnânt weithiau tuag at nodau'r wers.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac yn gadarnhaol am eu profiad yn y coleg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod sut i roi gwybod am unrhyw bryderon neu broblemau ynghylch eu lles. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio systemau ar-lein y coleg yn dda iawn ar gyfer cyfathrebu â'u hathrawon, yn enwedig ar gyfer rhoi gwybod am absenoldebau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu'n dda ac yn gwybod am weithdrefnau monitro presenoldeb y coleg. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymddwyn yn dda. Dangosant lefel uchel o barch tuag at eu cyfoedion, staff ac amgylchedd y coleg.

Mae bron pob un o'r dysgwyr ar lefelau 2 a 3 yn ymgymryd â phrofiad gwaith gwerthfawr o fewn y sector. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu medrau sy'n benodol i bwnc yn ogystal â medrau cyflogadwyedd a dinasyddiaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gwaith elusennol a gwaith cymunedol yn frwdfrydig iawn.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Barn: Da

At ei gilydd, mae'r cwricwlwm yn rhoi cyfleoedd priodol i ddysgwyr ar bob lefel. Caiff llwybrau dilyniant i ddysgwyr i lefelau dysgu uwch eu cynllunio'n dda. Mae'r cwricwlwm a gynigir yn cynnwys cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr ennill medrau sy'n berthnasol i'r sector, fel cymwysterau cymorth cyntaf.

Mae athrawon a rheolwyr yn cynllunio'r cwricwlwm yn effeithiol iawn i ganiatáu i ddysgwyr ddilyn llwybrau arbenigol. Mae hyn yn gwella eu dysgu ac yn bodloni anghenion y gymuned, cyflogwyr a dysgwyr yn dda.

Mae'r maes dysgu yn cynllunio'n dda i wneud yn siŵr bod gwersi llythrennedd a rhifedd penodol yn briodol ar gyfer bodloni anghenion dysgwyr unigol. Fodd bynnag, mewn gormod o wersi galwedigaethol, nid yw athrawon yn cynllunio'n dda i ddysgwyr ddatblygu'r medrau hyn yng nghyd-destun eu cwrs.

Yn y gwersi gorau, mae athrawon yn defnyddio ystod eang o weithgareddau'n dda i gyflwyno gwrs ysgogol sy'n caniatáu i ddysgwyr chwarae rhan weithgar yn eu dysgu. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau yn ddigonol i gymell a hoelio sylw dysgwyr. Yn y dosbarthiadau hyn, nid yw dysgwyr yn chwarae rhan weithgar yn eu dysgu ac nid yw rhai yn gwneud digon o gynnydd.

Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgwyr. Cynlluniant yn dda ar gyfer galluoedd unigol ac mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, mewn ychydig ddosbarthiadau, nid yw gwersi'n ddigon cyflym i hoelio sylw a herio dysgwyr, yn enwedig y dysgwyr mwy abl.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn fodelau iaith da. Defnyddiant eirfa heriol, sy'n berthnasol yn alwedigaethol, yn rhugl ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel, priodol y bydd eu dysgwyr yn gwneud yr un peth. Mewn mwyafrif o ddsbarthiadau, mae athrawon yn defnyddio cwestiynau'n effeithiol iawn i herio dysgwyr i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio technoleg electronig y coleg yn effeithiol iawn i fonitro ac olrhain cynnydd dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw ychydig athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig manwl sy'n rhoi arweiniad digon da i ddysgwyr i wella safon eu gwaith.

Mae'r coleg yn darparu cymorth ac arweiniad effeithiol iawn i bob dysgwr. Mae hyn yn golygu bod llawer o ddysgwyr yn deall cyfleoedd dilyniant ar ddiwedd eu cwrs yn glir. Mae tiwtorialau yn effeithiol iawn o ran helpu dysgwyr i asesu eu cynnydd a sicrhau eu bod yn cadw i fyny â'u gwaith cwrs. Mae'r coleg yn cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn.

Mae'r maes dysgu yn cynnig amgylchedd ffisegol sy'n ffafriol ar gyfer dysgu ac sy'n meithrin balchder yn y maes dysgu. Mae arddangosiadau amryfal ar y waliau, sy'n gynhwysol ac yn berthnasol i'r dysgwyr.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

Barn: Da

At ei gilydd, mae'r cyfarwyddwr, y cyfarwyddwyr cynorthwyol a'r dirprwy gyfarwyddwyr yn cynnig arweinyddiaeth dda i'r maes dysgu. Mae'r cyfarwyddwyr cynorthwyol a'r dirprwy gyfarwyddwyr yn newydd i'w swydd, er bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae adroddiad hunanasesu'r maes dysgu yn ddogfen gynhwysfawr. Fodd bynnag, mae'n or-gadarnhaol ac, mewn rhannau, nid yw'n adlewyrchu'r maes dysgu yn ddigon da. Caiff meysydd pwysig i'w gwella eu nodi'n glir yn y cynllun gwella ansawdd. Fodd bynnag, nid yw'n nodi'r camau i'w cymryd i gyflawni a monitro'r targedau a osodwyd yn ddigon da.

Cynhelir cyfarfodydd maes dysgu yn rheolaidd a dilynant agenda benodedig ddefnyddiol. Mae rheolwyr ac athrawon yn cyfathrebu'n effeithiol iawn ar draws y ddau gampws trwy ddefnyddio systemau cyfathrebu electronig y coleg yn helaeth i gadw mewn cysylltiad. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio i rannu arfer orau rhwng y ddau gampws wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae'r maes dysgu wedi datblygu amrywiaeth eang o bartneriaethau effeithiol â chyflogwyr lleol a sefydliadau addysg uwch. Mae rheolwyr ac athrawon yn defnyddio'r partneriaethau hyn yn dda i sicrhau eu bod yn ymateb yn effeithiol i anghenion a datblygiadau'r sector. Mae partneriaeth waith effeithiol gyda'r gymuned leol yn sicrhau bod dysgwyr yn cael addysg o ansawdd uchel yn y gwaith a chyfleoedd buddiol am ddilyniant i waith ac astudiaethau pellach.

Mae'r cyfarwyddwr, y cyfarwyddwyr cynorthwyol a'r dirprwy gyfarwyddwyr yn cynllunio'n dda ar gyfer sicrhau ansawdd gwersi trwy broses fanwl o arsylwi gwersi a gwerthusiadau blynyddol. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o reoli perfformiad a gwnânt yn siŵr fod mesurau ar gyfer gwella'n cael eu rhoi ar waith fel bo'r angen. Rhoddant werthoedd craidd a '10 ymddygiad' y coleg ar waith yn dda iawn. Maent yn nodi ac yn cynllunio cyfleoedd datblygu proffesiynol i'r holl staff, gan sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd yn dda ag anghenion unigol.

Mae rheolwyr y maes dysgu yn sicrhau bod athrawon a dysgwyr ar y ddau gampws yn elwa o adnoddau digonol, o ansawdd uchel, i wella'r profiad dysgu.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r maes yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau, gan gynnwys cymwysterau UG a Safon Uwch mewn TGCh a chyfrifiadura, diplomâu a diplomâu estynedig BTEC ar lefelau 1, 2 a 3. Yn ogystal, mae gan y maes bortffolio cryf o gyrsiau TG i ddiwydiant, gan gyflwyno cyfres o gyrsiau i fusnesau, ynghyd â hyfforddiant pwrpasol.

Ym mis Tachwedd 2015, roedd tua 370 o ddysgwyr amser llawn ac 85 o ddysgwyr rhan-amser. Mae'r holl ddarpariaeth TGCh wedi'i lleoli ar safleoedd y coleg yng Nglannau Dyfrdwy ac Iâl.

Argymhellion ar gyfer y maes dysgu

- A1 Gwella'r gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus arni
- A2 Sicrhau bod athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o strategaethau addysgu i hoelio sylw, ymestyn a herio dysgwyr o bob gallu
- A3 Datblygu ffyrdd pellach o ddefnyddio technoleg gwybodaeth a dysgu mewn sesiynau addysgu
- A4 Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg mamiaith neu ddysgwyr a astudiodd trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel cyn-16 oed barhau i ddefnyddio'u medrau Cymraeg

Prif Ganfyddiadau

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda yw deilliannau?

Barn: Digonol

At ei gilydd, ar gyfer 2013-2014, mae cyfradd cwblhau cyrsiau sylwedd yn llwyddiannus bwynt canran islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae cwblhad pob cwrs yn llwyddiannus islaw cyfartaleddau cenedlaethol hefyd ac mae tueddiadau dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn anghyson. Ar y cyfan, mae'r data o fewn y maes dysgu'n dangos darlun anghyson rhwng lefelau a rhwng cyrsiau.

Yn 2013-2014, cwblhaodd dysgwyr ar lefel 1 eu cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfradd uwch na'r cymharydd cenedlaethol. Fodd bynnag, fe wnaeth cyfraddau cwblhau llwyddiannus dysgwyr ar lefel 2 ddisgyn ymhell islaw'r cymharydd cenedlaethol.

Mae cwblhau cymwysterau UG a Safon Uwch yn llwyddiannus wedi bod yn agos at y cymaryddion cenedlaethol yn gyson er 2011-2012.

Yn 2013-2014, roedd cyfradd llwyddiant diploma estynedig lefel 3 BTEC ymhell uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae cymwysterau diploma lefel 3 BTEC yn dangos dirywiad yn y duedd cwblhad llwyddiannus dros dair blynedd, gyda data 2013-2014 yn dangos gostyngiad o 10 pwynt canran islaw'r cymharydd cenedlaethol.

Ar y cyfan, mae dysgwyr galwedigaethol a Safon Uwch yn cyflawni tua'r lefelau disgwylidig, ar sail eu cyrhaeddiad TGAU blaenorol.

Gwna llawer o ddysgwyr gynnydd da ar eu cyrsiau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos diddordeb a chymhelliant ac yn sicrhau'r cyflawniad a chynnydd a ddisgwylir ohonynt. Mae llawer o ddysgwyr yn gallu adalw dysgu blaenorol, datblygu eu medrau meddwl, caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd, a chymhwyso'r rhain yn eu dysgu. Mae tua hanner yn cyfrannu'n dda at drafodaethau'r dosbarth. Fodd bynnag, dim ond ychydig ddysgwyr sy'n gallu ymhelaethu ar eu cyfraniadau pan gânt eu holi.

Mae dysgwyr amser llawn yn cyflawni asesiad cychwynnol a diagnostig defnyddiol ar ddechrau eu cwrs a defnyddiant y canlyniadau'n effeithiol i osod eu targedau llythrennedd a rhifedd eu hunain.

Mae bron pob dysgwr yn gwybod pa raddau y mae arnynt eu hangen i gwblhau eu cwrs yn llwyddiannus a beth mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg. Mae ganddynt agwedd gadarnhaol at eu dysgu ac mae presenoldeb ym mhob dosbarth yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyrraedd yn brydlon. Mae gan ddysgwyr berthynas dda â'u hathrawon a rhoddant gymorth a chefnogaeth i'w cymheiriaid. Ar lefelau 1 a 2, mae dysgwyr yn defnyddio asesu cymheiriaid i ategu eu datblygiad ym maes llythrennedd. Er enghraifft, maent yn prawfddarllen eu haseiniadau ei gilydd cyn eu cyflwyno. Mae dysgwyr yn gweithio'n dda ac yn effeithiol ym mhob grŵp a phâr. Mae'r holl ddysgwyr yn dangos agwedd barchus at eu cymheiriaid, eu hathrawon ac ymwelwyr â'r coleg.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Barn: Da

Mae'r cwricwlwm yn darparu llwybrau dilyniant clir i gyrsiau uwch yn y maes dysgu ac i addysg uwch.

Mae'r maes dysgu wedi datblygu cysylltiadau cryf â chyflogwyr i gynnig cyfleoedd prentisiaeth i'w ddysgwyr. Mae cynlluniau dysgu yn gynhwysfawr ac ar gael i ddysgwyr trwy raglen electronig o gymorth ystafell ddosbarth.

Mae ffocws clir gan y maes dysgu ar addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Fodd bynnag, mae ychydig athrawon yn colli cyfleoedd i hybu'r meysydd hyn ym mhob cwrs.

Mae bron pob ystafell ddosbarth yn arddangos posteri a geirfa ddwyieithog a gall dysgwyr fanteisio'n ddefnyddiol ar restr geirfa ddwyieithog ar-lein. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddarpariaeth sydd i ymestyn medrau Cymraeg dysgwyr. Nid yw dysgwyr sy'n dod o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cael llawer o gyfle i ddefnyddio'u medrau Cymraeg ar eu cwrs.

Mae gan bron pob athro wybodaeth dechnegol gyfredol a gwybodaeth gyfredol am y pwnc. Mae bron pob un o'r athrawon yn cynllunio'n dda i roi cyfleoedd am waith unigol a gwaith grŵp. Mae ychydig athrawon yn defnyddio nodweddion rhyngweithiol y bwrdd gwyn yn effeithiol iawn i roi gwersi ysgogol. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw athrawon yn gwneud defnydd arloesol iawn o gyfleusterau rhyngweithiol yn eu haddysgu.

Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae athrawon yn defnyddio cyflymder a her yn briodol i hoelio sylw'r dysgwyr. Fodd bynnag, mewn ychydig sesiynau, mae'r gwersi'n rhy araf ac mae diffyg her. Mae hyn yn golygu nad yw llawer o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud. Yn y dosbarthiadau hyn, mae ymddygiad aflonyddgar ar lefel isel.

Mae athrawon yn defnyddio cyfleoedd naturiol yn dda iawn i ddatblygu medrau llythrennedd dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer cynnwys rhifedd mewn gwersi wedi'i ddatblygu cystal.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio holi'n effeithiol i asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw digon o athrawon yn defnyddio holi estynedig yn ddigon da i ennyn gwybodaeth bellach gan ddysgwyr ac i ymestyn eu medrau meddwl. Mae athrawon a chynorthwywyr ystafell dosbarth yn rhoi cymorth effeithiol i ddysgwyr yn y dosbarth. Mae athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig adeiladol, clir ac yn rhoi adborth llafar defnyddiol ym mwyafrif y sesiynau. Mae gan yr holl athrawon ddisgwyliadau uchel ynghylch ymddygiad ac maent yn cyfleu hynny'n dda i ddysgwyr.

Mae athrawon yn monitro cynnydd dysgwyr yn fanwl yn ystod wythnosau cyntaf eu rhaglen ac yn cynnal 'adolygiadau dewis cywir' i sicrhau bod dysgwyr yn dilyn y cyrsiau cywir. Mae athrawon yn defnyddio system ar-lein y coleg ar gyfer olrhain dysgwyr yn effeithiol i fonitro cynnydd dysgwyr yn ôl eu targedau. Mae bron yr holl ddysgwyr lefel 3 yn monitro eu cyflawniadau'n dda iawn yn erbyn eu targedau prifysgol a'u huchelgeisiau. Mae'r coleg yn cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn.

Mae'r maes dysgu'n llwyddo i greu amgylchedd cynhwysol, digynnwrf, sy'n gwerthfawrogi cyfraniad pob unigolyn. Mae ystafelloedd dosbarth wedi'u cyfarparu'n dda, gyda'r caledwedd diweddaraf a meddalwedd perthnasol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

Barn: Da

Mae cyfarwyddwr a dirprwy gyfarwyddwr y maes dysgu yn defnyddio'u gwybodaeth am TGCh yn dda. Gweithiant yn dda gydag athrawon i ddiwygio'r cwricwlwm a gynigir i sicrhau ei fod yn berthnasol i anghenion y dysgwyr, y gweithle ac addysg uwch.

Mae rheolwyr yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ag athrawon i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am dargedau strategol a gweithredol y coleg. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda pan fyddant yn adolygu eu cyrsiau. Mae athrawon yn gwybod beth a ddisgwylir ohonynt o ran cynorthwyo dysgwyr i gyflawni ac maent yn defnyddio data'n dda trwy systemau electronig y coleg ar gyfer rheoli ansawdd i fonitro cynnydd dysgwyr.

Mae llywodraethwr cyswllt y coleg yn chwarae rhan weithgar ac yn ymddiddori yn y maes dysgu. Mae'n mynychu seremonïau gwobrwyo ac yn cyfarfod â dysgwyr ac athrawon yn rheolaidd. Mae'n aelod o banel dilysu hunanasesu'r maes, ac mae'n cynnig her gadarn i dîm y maes dysgu.

Mae'r maes dysgu yn defnyddio cylch cynllunio ansawdd y coleg yn effeithiol. Mae timau cyrsiau yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn defnyddio canlyniadau'r cyfarfodydd hyn yn effeithiol i lunio adolygiadau blynyddol o'r cyrsiau. Mae rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth o'r adolygiadau hyn o gyrsiau yn dda i lunio adroddiad hunanasesu a chynllun gwella ansawdd y maes dysgu. Mae'r cynlluniau a'r adroddiadau hyn yn destun dilysu trylwyr, cadarn, gan lywodraethwr cyswllt y maes dysgu ac aelodau o dîm rheoli'r coleg. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae adroddiad hunanasesu'r maes dysgu yn rhoi golwg gorgadarnhaol, yn enwedig o ddata'r maes dysgu ar gwblhad llwyddiannus. Mae'r cynllun gwella ansawdd yn cynnwys targedau realistig ar gyfer gwella, a chaiff cynnydd tuag at y targedau hyn ei fonitro'n ffurfiol dair gwaith y flwyddyn.

Mae gan y maes dysgu ystod gref o bartneriaethau, gan gynnwys gydag ysgolion lleol, Prifysgol Glyndŵr, cyflogwyr a diwydiant. Mae'n defnyddio'r partneriaethau hyn yn effeithiol i sicrhau bod y maes dysgu'n cynnig cymwysterau cyfredol ac yn bodloni anghenion maes medrau sy'n newid yn gyflym.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon a rheolwyr yn derbyn y datblygiad proffesiynol parhaus sy'n cael ei gynnig gan y coleg i sicrhau bod y medrau cyfredol angenrheidiol ganddynt i addysgu rhaglenni a chysyniadau newydd yn effeithiol.

Gwna'r maes ddefnydd da o'i staff a'u medrau, ac mae'n eu defnyddio'n effeithiol er budd dysgwyr.

Medrau Byw'n Annibynnol

Cyd-destun y maes dysgu

Mae cyrsiau Sgiliau Byw'n Annibynnol yng Ngholeg Cambria wedi'u lleoli ar ddau safle, sef Llaneurgain ac Iâl. Ar hyn o bryd, mae 145 o fyfyrwr a 12 o staff.

Ar gampws Llaneurgain, darperir cyrsiau galwedigaethol amser llawn ar fedrau bywyd ar lefelau cyn mynediad, mynediad 1 a mynediad 2 mewn gofal anifeiliaid, coginio, medrau creadigol, gofal ceffylau, garddwriaeth a medrau gweithdy. Yn ogystal, mae cyfleuster blodeuwriaeth, gerddi addurnol, gweithdai garddwriaeth ac ardaloedd cynhyrchu sy'n cael eu defnyddio fel ystafelloedd dosbarth awyr agored.

Ar gampws Iâl, cynigir cyrsiau galwedigaethol amser llawn ar fedrau bywyd ar lefelau cyn mynediad, mynediad 1, mynediad 2 a mynediad 3.

Nid yw'n briodol cymharu safonau dysgwyr â chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau ym mherfformiad grwpiau gydag amser oherwydd natur anghenion y dysgwyr.

Argymhellion ar gyfer y maes dysgu

- A1 Sicrhau bod yr holl ddogfennau cynllunio yn nodi anghenion dysgwyr yn glir, a'u bod yn canolbwyntio ar ddeiliannau, yn benodol ac yn fesuradwy
- A2 Sicrhau bod y cwricwlwm yn bodloni anghenion dysgwyr ac yn rhoi iddynt y medrau y bydd eu hangen arnynt pan fyddant yn gadael y coleg
- A3 Rhoi systemau ar waith i olrhain cynnydd dysgwyr
- A4 Rhoi system hunanarfarnu ar waith sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau dysgwyr
- A5 Sicrhau bod arweinwyr a rheolwyr yn cynnig cyfeiriad clir a ffocws ar ddeilliannau dysgwyr

Prif Ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Barn: Digonol

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ennill ystod addas o gymwysterau mynediad 1 a mynediad 2 mewn meysydd galwedigaethol fel garddwriaeth, gofal anifeiliaid, coginio ac astudiaethau ceffylau. Llwyddodd bron pob un o'r dysgwyr i ennill dyfarniadau sefydlu'r coleg a chaffael cymhwyster lefel 1 BTEC mewn medrau coginio ar gyfer y cartref. Enillodd ychydig ddysgwyr gymwysterau mewn medrau rhifedd.

Nid oes systemau effeithiol ar waith gan y coleg i gofnodi ac olrhain cynnydd dysgwyr. O ganlyniad, nid yw'r coleg yn gallu dangos nac arfarnu faint o gynnydd a wna dysgwyr gydag amser na ph'un a ydynt yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u galluoedd a'u hanghenion. Ar y cyfan, mae targedau dysgu unigol dysgwyr ar gyfer

gwneud cynnydd a gwella yn amwys ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddatblygu medrau bywyd a medrau annibyniaeth dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn talu sylw mewn gwersi, yn canolbwyntio ar y dasg ac yn frwdfrydig. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau llafaredd yn dda a, thrwy gymorth ac anogaeth briodol, mae llawer ohonynt yn gallu adalw dysgu blaenorol ac ymateb yn frwdfrydig i gwestiynau. Mae gan lleiafrif o ddysgwyr yr hyder i ddarllen yn uchel. Mae nifer bach iawn o ddysgwyr yn gallu rhagweld y cwestiwn nesaf ac ymateb cyn i'r cwestiwn gael ei ofyn.

Mae bron pob un o'r dysgwyr llai abl yn rhoi atebion ysgrifenedig pan fydd angen iddynt wneud hynny. I'r nifer bach iawn sydd â medrau llawysgrifen prin, mae hyn yn cynnwys ysgrifennu dros destun. Mae'r dysgwyr mwy abl yn cyflwyno'u gwaith yn daclus, gyda llawysgrifen glir a dealladwy. Defnyddiant TGCh yn dda i ymchwilio i waith prosiect a chyflwynant eu gwybodaeth mewn fformat deniadol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn cael digon o help i wella'u darllen, eu hysgrifennu neu eu mathemateg.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu dealltwriaeth sylfaenol o rifedd. Mewn arlwyo, er enghraifft, mae mwyafrif y dysgwyr yn nodi'n gywir pa gynhwysion ac offer cegin sy'n angenrheidiol i gwblhau tasg, a gall y rhan fwyaf ohonynt adalw technegau coginio y maent wedi'u dysgu eisoes. Gydag amser, datblygant hyder a chywirdeb cynyddol wrth bwysu eitemau a defnyddio offer cegin. Dysgant fesur gan ddefnyddio pren mesur a gallant adnabod ffracsiynau syml. Mewn gwersi ymarferol ar ofal anifeiliaid, mae mwyafrif y dysgwyr yn dilyn cyfarwyddiadau bwydo syml.

Mae perthynas dda iawn rhwng dysgwyr a staff ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ymddygiad cadarnhaol dysgwyr mewn gwersi ac o gwmpas y coleg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando'n dda ac mae'n amlwg eu bod yn mwynhau eu gwersi, gyda llawer ohonynt yn dyfalbarhau ar dasgau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddysgwyr yn colli diddordeb yn gyflym pan na fydd gweithgareddau'n ddigon heriol neu pan fyddant wedi cwblhau tasgau.

Mae'r holl ddysgwyr yn datblygu medrau a gwybodaeth newydd ac yn defnyddio'r rhain yn dda mewn gweithgareddau fel coginio sylfaenol, deall bwyta'n iach, gofalu am anifeiliaid, blodeuwriaeth a chrefftau creadigol. Fodd bynnag, nid yw'r holl ddysgwr yn gwneud cynnydd sy'n cyd-fynd â'u gallu ac mae llawer o ddysgwyr yn symud ymlaen i gyrsiau ar yr un lefel.

Mae cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg wedi'i gyfyngu'n gyffredinol i ymateb i gyfarchion a chyfrif syml. Mae ychydig ddysgwyr yn ymateb yn gywir yn Gymraeg i gwestiynau yn Saesneg. Nid yw dysgwyr o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith yn gwneud digon o gynnydd wrth ddefnyddio'r iaith.

Mae'r holl ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac yn datblygu cysylltiadau priodol â'r gymuned. Er enghraifft, maent yn helpu gwneud llusernau helyg ac yn cymryd rhan yng ngorymdaith llusernau Wrecsam, yn creu a gwerthu eitemau crefft ac yn trefnu boreau coffi i gefnogi elusennau cenedlaethol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Barn: Digonol

Ar y cyfan, mae'r maes dysgu yn defnyddio cyfleusterau safleoedd y coleg yn dda i gynnig darpariaeth alwedigaethol eang ac amrywiaeth eang o brofiadau dysgu. Mae'r amgylchedd dysgu yn ddigynnwrf ac yn ffafriol i anghenion dysgwyr. Mae cyfleusterau rhagorol ar gyfer gofal anifeiliaid, gofal ceffylau a garddwriaeth. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cyfleoedd a'r cyfleusterau i ddysgwyr ddatblygu medrau ymarferol ar gyfer byw'n annibynnol neu fedrau galwedigaethol perthnasol i'w paratoi ar gyfer bywyd ar ôl gadael y coleg.

Mae'r coleg yn cynnig ystod addas o gymwysterau. Yn ddiweddar, mae wedi gwella'r cymwysterau a gynigir i alluogi dysgwyr i astudio cymhwyster galwedigaethol defnyddiol ar lefel mynediad. Mae mwyafrif y dysgwyr yn cael profiad gwaith perthnasol fel rhan o'u cwrs. Fodd bynnag, nid yw'r coleg yn cynllunio'r profiad gwaith hwn yn ddigon da a phrin yw ei effaith.

Mae'r maes dysgu yn hyrwyddo addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Er enghraifft, mae dysgwyr yn cymryd rhan ym mhrosiect ailgylchu'r coleg ac yn gweithio'n dda gydag elusennau lleol, gan gynnwys cwmni bwyd cydweithredol.

Mae'r maes dysgu wedi mabwysiadu dull cydlynus, da o ddatblygu medrau Cymraeg achlysurol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei baru'n briodol â gwybodaeth flaenorol dysgwyr.

Mae'r adran yn cynllunio'n dda ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn ei chynlluniau gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio hwn yn trosi'n ymarfer mewn sesiynau unigol yn ddigon da.

Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn creu amgylchedd o barch ac ymddiriedaeth rhyngddyn nhw a dysgwyr. Ym mwyafrif y sesiynau, mae gan athrawon nodau clir ar gyfer y wers ac maent yn modelu iaith yn dda i'r dysgwyr. Defnyddiant gwestiynau penagored yn dda i annog dysgwyr i gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y gwersi'n ddigon cyflym ac nid ydynt yn herio pob dysgwr yn ddigon da. Mae bron pob un o'r athrawon yn methu â chynllunio'n effeithiol i fodloni'r anghenion dysgu unigol yn y grŵp ac ni chaiff gwaith ei baru'n briodol â galluoedd dysgwyr. Ni chaiff y rhan fwyaf o wersi eu cynllunio'n ddigon da i ymestyn medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr.

Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio adborth llafar cadarnhaol i ganmol dysgwyr. Mae staff yn dechrau defnyddio system asesu ar-lein i roi adborth adeiladol ar sut i wella. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i farnu effaith y fenter hon.

Nid yw systemau'r coleg ar gyfer dal gwybodaeth hanfodol am alluoedd ac anghenion dysgu a chymorth ychwanegol pob dysgwr yn ddigon cadarn. Nid yw'r asesiad cychwynnol o alluoedd dysgwyr yn ddigon cynhwysfawr ac nid oes ymgais i fynd ar drywydd bylchau lle bo'r rhain yn bodoli. O ganlyniad, nid oes gan y coleg ddealltwriaeth ddigon da o anghenion y dysgwyr. Nid yw athrawon yn defnyddio'r

wybodaeth sydd ganddynt am ddysgwyr i ddatblygu strategaethau sy'n bodloni'r anghenion dysgu nac i osod targedau gwella.

Mae'r maes dysgu yn cynllunio ar gyfer, ac yn darparu, amrywiaeth ddefnyddiol o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion fel seiber-fwlio, diogelwch personol a pherthnasoedd.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

Barn: Anfoddhaol

Ar y cyfan, mae'r strwythur rheoli yn y maes dysgu yn briodol ac yn sefydlu llinellau atebolrwydd clir. Mae meysydd cyfrifoldeb yr uwch reolwyr wedi'u diffinio'n glir ac mae'r cyfathrebu am faterion bob dydd rhwng rheolwyr ac aelodau'r tîm addysgu yn effeithiol. Mae'r cyfarwyddwr a'r dirprwy gyfarwyddwr yn sicrhau bod staff a dysgwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn cydweithio'n dda. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhoi cyfeiriad clir i'r maes dysgu sy'n bodloni anghenion ei holl ddysgwyr.

Mae rheolwyr yn casglu ystod gyfyngedig o wybodaeth am ddeilliannau dysgwyr a dim ond yn ddiweddar y maent wedi dechrau datblygu ystod ehangach o fesurau i arfarnu cynnydd dysgwyr. O ganlyniad, mae'r ffocws ar gyfer y maes dysgu yn rhy gyffredinol ac nid yw'n ddigon clir ynghylch anghenion penodol dysgwyr unigol.

Mae cyfarfodydd rheolaidd i staff addysgu ac arweinwyr. Fodd bynnag, mae cyfarfodydd tîm yn canolbwyntio'n ormodol ar faterion gweithredol. Mae diffyg ffocws ar gynnydd dysgwyr tuag at eu nodau hirdymor. Nid yw cyfrifoldebau o fewn yr adran yn ddigonol i fodloni gofynion amrywiol dysgwyr ag amrywiaeth mor eang o anghenion.

Mae adroddiad hunanasesu'r maes dysgu yn dilyn gofynion y coleg yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'n darparu asesiad cywir o'r cryfderau yn y maes dysgu a'i feysydd i'w gwella. Mae ei farnau yn or-gadarnhaol ac nid yw'n ddigon arfarnol. Nid yw rheolwyr yn defnyddio ystod ddigonol o dystiolaeth ac nid yw'r adroddiad yn canolbwyntio'n ddigon clir ar ddeilliannau dysgwyr. Nid yw staff yn y maes dysgu yn rhannu dealltwriaeth o'r blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Nid yw'r cynllun gwella ansawdd yn nodi'r hyn y mae angen i'r adran ei wneud i gael effaith ar wella deilliannau hirdymor i ddysgwyr yn ddigon da. Nid yw targedau'n canolbwyntio'n ddigonol ar sut bydd yr adran yn rhoi i ddysgwyr y medrau y byddant eu hangen yn y dyfodol. Nid yw meini prawf llwyddiant yn benodol ac nid yw amserlenni yn amlygu cerrig milltir ar gyfer cwblhau nac yn nodi anghenion o ran adnoddau. Ar y cyfan, mae ansawdd yr hunanasesu a'r cynllunio ar gyfer gwella yn y maes dysgu yn aneffeithiol.

Mae'r maes dysgu yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth addas o bartneriaid i gefnogi lles dysgwyr. Mae ganddo berthynas werthfawr ag ysgolion lleol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer cyrsiau blasu a chynllunio ar y cyd i sicrhau gwell dealltwriaeth o gwricwlwm y coleg. Fodd bynnag, nid yw cysylltiadau â phartneriaid i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith yn y coleg a thu hwnt wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae gan y maes dysgu ffocws priodol ar reoli ei adnoddau yn effeithlon. Yn gyffredinol, mae'n defnyddio staff yn effeithiol a gall dysgwyr fanteisio ar ddewis addas o adnoddau dysgu. Mae llawer o agweddau ar yr amgylchedd dysgu yn rhagorol. Fodd bynnag, nid yw'r hyfforddiant i staff yn mynd i'r afael ag anghenion penodol dysgwyr yn yr adran yn ddigonol.

Atodiad 1

Bodddhad dysgwyr

Rydym yn defnyddio deilliannau arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru i lywio ein holl arolygiadau o addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae Llais y Dysgwr yn arolwg o foddhad dysgwyr y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnal bob blwyddyn rhwng Ionawr a Chwefror.

Mae'r arolwg yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau i ddysgwyr, ar y themâu allweddol canlynol:

- y wybodaeth, cyngor ac arweiniad a ddarperir iddynt
- ymatebolrwydd y darparwr, yr amgylchedd dysgu a lles myfyrwyr
- ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant; a
- bodddhad cyffredinol

Mae pob thema yn cynnwys amrywiaeth o gwestiynau sy'n gofyn i ddysgwyr roi sgôr i berfformiad eu darparwr.

Atodiad 2

Y tîm arolygu

Gill Sims	Arolygydd Cofnodol
Vanessa Morgan	Arolygydd Tîm
Steve Bell	Arolygydd Tîm
Mamta Arnott	Arolygydd Tîm
Alun Connick	Arolygydd Tîm
Huw Davies	Arolygydd Tîm
Richard Mark Tither	Arolygydd Tîm
Liz Miles	Arolygydd Tîm
Cathryn Lisa Williams	Arolygydd Cymheiriaid
Frances Green	Arolygydd Cymheiriaid
Helen Diane Lawless	Arolygydd Cymheiriaid
Sarah Allen	Arolygydd Cymheiriaid
Sandra Jayne Taylor	Arolygydd Cymheiriaid
Tracey Jayne Evans	Arolygydd Cymheiriaid
Alwyn Griffiths	Arolygydd Cymheiriaid
Barbara Jackson	Arolygydd Cymheiriaid
Marion Lynn Phillips	Arolygydd Cymheiriaid
Ceri Evans	Arolygydd Cymheiriaid
Rebecca Claire Thomas	Arolygydd Cymheiriaid
Terrie Vaughan-taylor	Arolygydd Cymheiriaid
Tom Snelgrove	Arolygydd Cymheiriaid
Alison Judith Williams	Arolygydd Cymheiriaid
Nicola Gamlin	Arolygydd Cymheiriaid
Eleanor Davies	Arolygydd Sicrhau Ansawdd
Ian Dickson	Enwebai